

ECO'R WYDDFA

RHIF 297

CHWEFROR 2003

PRIS 40c

Yn y rhifyn yma...

- Atgofion am 'Llanrug Central School' – tud. 3
- Lluniau drama Nadolig Nant Peris – tud. 16
- Bryn Fôn a Dewi Pws yn Ysgol Brynrefail – tud. ganol

Ydi Hen Faner Undeb y Chwarelwyr yn Eich Atig Chi?

Mae'r Eco yn ceisio dod o hyd i hen faner hanesyddol Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru – mae'n bosib ei bod yn hel llwch mewn hen focs yn atig un o'n darllenwyr. Mae myfyrwraig ym Mhrifysgol Cymru, Bangor yn ceisio darganfod lle mae'r faner – yn ogystal â gwobodaeth am yr Undeb.

Mae Nerys Wynne Jones, myfyrwraig sy'n astudio gradd mewn Rheolaeth Treftadaeth yn Ysgol Astudiaeth Busnes a Datblygu Rhanbarthol, ar dân gyda brwdfrydedd am y pwnc, wedi iddi fod yn astudio hanes diwydiant y chwareli.

Ei chwest rwan yw canfod beth ddigwyddodd i faner Undeb y Chwarelwyr.

'Wrth ymchwilio i hanes cymunedau'r diwydiant llechi, mi ddois ar draws un llun o faner Undeb y Chwarelwyr, a unodd wedyn gydag undeb y T&G,' meddai Nerys.



'Gofynnais a oedd y faner i'w gweld yn unrhyw archif neu amgueddfa ond darganfyddais bod y faner, sydd yn dangos golygfeydd nodweddiadol o ddiwrnod gwaith y chwarelwyr, ac sydd mae'n debyg o faint



sylweddol, wedi diflannu. Mae gen i deimlad ei bod mewn bodolaeth o hyd yn rhywle a byddwn wrth fy modd yn darganfod rhagor am ei hanes neu am hanes y sawl a'i creodd.'

Fel rhan o'i chwr, mae Nerys wedi bod yn datblygu syniadau ar gyfer atyniadau ymwelwyr wedi eu seilio ar dreftadaeth chwareli'r ardal, gan edrych yn enwedig ar Fethesda a Porth Penrhyn ym Mangor. Fel rhan o'i modiwl enterprenariaeth, mae Nerys wedi datblygu syniadau ar gyfer datblygiad arfaethedig yn Llys Dafydd, ar Stryd Fawr Bethesda, ac mae wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno ei hastudiaeth dichonolrwydd i gyfarfod nesaf Is-bwyllgor Llys Dafydd.


Mae Nerys hefyd yn dilyn cwrs ysgrifennu creadigol yn y Brifysgol ac mae ei hymchwiliad i ardal diwydiant y llechi wedi ei hysbrydoli i ysgrifennu nofel fer wedi ei seilio ar hanes y gymuned ar droad yr ugeinfed ganrif.

'Rwyf wedi fy hudo gan lenyddiaeth, diwydiant gweledol a hanes cymunedau ardal y chwareli ac wedi bod yn siarad gyda sawl hanesydd lleol, yn enwedig am gyfnod y streic fawr 1900-03,' meddai Nerys. 'Teimlaf y byddai'n braf trefnu dathliad cymunedol i nodi diwedd y streic a rhoi esgus i bobl ddathlu eu treftadaeth.'

Er mai yn ardal Bethesda

mae Nerys yn canolbwyntio ei gwaith ymchwil, mae hi'n ymbil ar holl bobl ardal y llechen am unrhyw wybodaeth.

Gall unrhyw un sydd ag awgrymiadau am hanes neu ffawd y faner gysylltu â Nerys trwy adael rhif cyswllt gydag Ysgrifenyddes yr Ysgol, Nerys Williams ar (01248) 382194, neu drwy e-bostio Nerys Wynne Jones ar tcu8a6@bangor.ac.uk.



Baner Undeb y Chwarelwyr sydd yn dangos golygfeydd nodweddiadol o ddiwrnod gwaith y chwarelwyr.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 297
CHWEFROR 2003**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-V-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Eiddir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffiths,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, CHWEFROR 17

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 27

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Mawrth	1 Chwefror 17	Chwefror 27	Llanrug	Iolo Llywelyn

Y Derby Fawr

Dydw i ddim yn deall beth ydy'r holl ffwdan. Caerfyrddin v Llanelli? Gêm fach. Pan oeddwn i'n ifanc yn y Gogledd, roedd yna gêm go iawn yn digwydd ar ddydd San Steffan. Weithiau, mi fydddech chi'n cael Lerpwl yn erbyn Everton neu, yn y dyddiau pell yn ôl hynny, Man U yn erbyn Man City. Ambell dro, roedd Caernarfon yn erbyn Bangor hyd yn oed. Ond bob Rhagfyr 26 heb fethu, roeddem yn cael Caeathro v Waunfawr.

Os nad ydych chi erioed wedi clywed am y ddau bentre', eich colled chi ydy hynny. Dyma'r pentrefi a fagodd bêl-droedwyr enwog fel Aled Lodge, Shacyn, Mois Bach a Woody. Roedd gemau dydd San Steffan yn arbennig o gofiadwy, yn enwedig gan nad oedd y rhan fwyaf o'r chwaraewyr yn cofio dim am na noswyl Nadolig na'r diwrnod mawr ei hun.

Doedd neb yn penio'r bêl rhag ofn iddyn nhw wneud eu hangofys yn waeth. Ac os oedd rhywun yn llwyddo i redeg fel Ryan Giggs i lawr yr asgell... heb sobri digon i redeg yn syth yr oedd o. A dweud y gwir, roedd ambell un yn gorfod stopio bob hyn a hyn er mwyn trecio beth oedd o wedi'i gael i'w fwyta yn ginio Nadolig. Roedd y cyfan yn gwneud i'r cae edrych fel petai'n diodde' o'r frech goch. Aled Lodge oedd yn gosod y lefel o ran ffasiwn. Roedd ganddo drowsus bach, mawr, fel petai, yn cyrraedd i lawr at ei bengliniau, yn debyg i flwmer ei fam-gu. Ac roedd rhai'n amau mai ei fam-gu oedd ynddyn nhw hefyd. Bachgen ysgol oeddwn i ar y pryd ond roedd ambell un o'r chwaraewyr yn ddigon hen i fod yn dad imi. Eu tactic arferol oedd tacio

unrhyw un ifanc oedd yn dod yn ddigon agos, jyst rhag ofn iddo gael y bêl o fewn y deng munud nesa'.

Rhedeg ar ôl eu hieuenctid yr oedd y rhan fwyaf ohonyn nhw, yn fwy na rhedeg ar ôl y bêl - roedden nhw'n gwybod lle'r oedden nhw i fod, ond roedd hynny wastad rhyw bum llath o'u blaenau. Bôn y clawdd oedd y stafelloedd newid a phawb yn gadael eu dillad yn bentwr ar ochr y cae. Dim byd o'i le ar hynny, os nad oedd ci yn digwydd pasio. Doedd yna ddim stand, chwaith - os nad oedd hen ddyn yn digwydd stopio gyda'i zimmer - ac roedd y tyrfaoedd dipyn yn brin. Doedd yna neb yn dod i weld, jyst rhag ofn y bydden nhw'n gorfod chwarae. Ar ôl y gêm yr oedd y digwyddiad mwya' cyffrous - ym mar tafarn Caeathro. Roedd y tensiwn a'r cynnwrf yn anhygoel wrth inni i gyd aros i weld a fyddai Keith Bach yn mynd i'w boced i brynu rownd.

Byddwn i wrth fy modd yn cael mynd yn ôl a chwarae un gêm fach arall... a chael bod yn fachgen deunaw oed gyda lot o wallt. Byddwn i'n gwneud rings rownd Aled Lodge y tro nesa', wedi'r cyfan, mae o siwr o fod ar ei bensiwn erbyn hyn. Ond, i fi, dyna ydy pêl-droed. Nid gwylio chwaraewyr sy'n cael eu talu fwy am un gêm nag y mac'r rhan fwyaf ohonon ni'n ei gael mewn, blwyddyn. Ac er y bydd y safon yn well, gobeithio y bydd rhywfaint o'r ysbryd yna ar y Waundew heddiw.

Dylan Iorwerth 21.06.02

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DAWES

TREK

ENERGY CYCLES

60 Stryd Fawr
Llanberis

Beics a Barcudau

Partiau a Thrwsio Beics

Beics Ffordd a Mynydd,

BMX, Triathlon

Barcudau Hwyl, Chwaraeon

a Delta Powerkites.

Dewis Da

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne

OZONE



Oriau Agor

Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:
Iau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun
Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar
agor tan 6 pm

Un funud fach

WYTHNOS YN AMSER HIR

Mae bod yn olygydd unrhyw bapur newydd yn waith caled. Gallaf dystio fod hynny'n wir wedi i mi dreulio bron i ddegawd yn gyd-olygydd yr Eco. Golygai weithio hyd oriau mân y bore yn aml er mwyn gosod y papur. Ond roedd un fantais i mi o fod yn olygydd - gallwn adael yr 'Un funud fach' tan y funud olaf.

Roedd hynny'n fy siwtio i'r dim gan mai creadur munud ola ydw i wrth reddf. Yn amlach na heb y golofn hon oedd y peth olaf i'w sgwennu cyn argraffu'r papur. A mantais fawr hynny oedd y gallwn weithiau drafod rhywbeth oedd wedi digwydd y noson cyn cyhoeddi'r papur.

Ond wedi rhoi heibio'r olygyddiaeth mae'n rhaid i minnau bellach ofalu fod y golofn yn barod wythnos cyn y bydd neb yn ei gweld. Nid yw hynny'n ddrwg o beth fel arfer. Ond mae'n gwneud pethau'n anodd ar noson fel heno tra bo rhai'n paratoi at ryfel, a phan fo'r milwyr ar eu ffordd i'r Gwlff. Mae'r bomiau a'r tanciau yn eu lle, a phwy wyl beth fydd wedi digwydd erbyn y gwel yr Eco olau dydd ymhen yr wythnos? Mae diwedd mis Ionawr yn dod, ac mae digon o le i ofni fod yr Arlywydd Bush wedi hen benderfynu y bydd y rhyfel yn cychwyn bryd hynny. Ac mae'n beryg fod Tony Blair a llywodraeth Prydain yn dilyn yn slafaid bolisi ynfyd Bush, er gwaetha pob gwrthwynebiad a fynegir trwy'r gwledydd hyn ac er gwaetha cyndynrwydd llywodraethau gwledydd fel Ffrainc a'r Almaen i gefnogi'r rhyfel hwn.

Codwch eich llais yn erbyn y rhyfel a fydd yn peri dioddefaint pellach i bobl Irac ac yn cynyddu'r perygl o ymosodiadau terfysgol ar Brydain ac America. Protestiwch. Sgwennwch at Mr Blair. Dywedwch wrtho nad ydych am weld rhyfel. Mynnwch heddwch. A gweddiwch am ddoethineb i arweinwyr y byd fel y daw cyfiawnder a threfn i Irac trwy ddulliau heddychlon.

Peth hurt yw rhyfel, ac un enghraifft o hynny yw'r ffaith fod miloedd o filwyr ar eu ffordd i'r Gwlff efo taslegrau a thanciau ond heb drowsus na sgidiau addas. Ac mae'n fwy hurt pan fo'r rhyfel er sicrhau olew ac er mwyn i Mr Bush gael dweud iddo orffen tasg a ddechreuodd ei dad.

JOHN PRITCHARD

Atgofion am Llanrug Central School a Bryn Eryr (Eagle Hill School!)



Rhes Uchaf (chwith i'r dde): Miriam, Llywela, Mr Garison Williams, Mr Leslie Larsen, Gwenllian, Eurwen. Rhes Isaf: Marian Wyn, Joan, Carys, Cynthia, ??, Ann Beudy Mawr.



Nan Llestyn



Menna Pensarn



Gwenllian Glan Moelyn



Eurwen Glan Moelyn

Cafwyd noson arbennig o lwyddiannus yng Ngwesty Fictoria Llanberis yn ddiweddar pan ymunodd rhai o gyn-ddisgyblion 'standard five' Ysgol Ganol Llanrug ac Ysgol Bryn Eryr i ddathlu aduniad hanner can mlynedd.

Wel sôn am hel atgofion trwy luniau a sgwrsio a chwerthin, ac erbyn diwedd y noson, dawnsio bendigedig.

Cyfansoddodd Gwenllian (Glan Moelyn) benillion addas

iawn i ddisgrifio'r cyfnod. Tynnwyd sawl raffl a chyflwynwyd yr arian i Gartref Henoed y Foelas.

Diolch o galon i Nan Llestyn am drefnu'r noson ac i Menna (Pen Sarn) am ei chymorth. Cyflwynwyd basged hardd o flodau i Nan gan Rita (Snowdon View) i ddiolch am y trefniadau trylwyr.

Noson wych, fythgofiadwy. Dyna farn pawb.

MENNA PEN SARN

Llanrug Central School Babanod

Dechrau yn y babanod,
Wnaethom ni,
Cod liver oil a fitamin 'C',
Poteli bach llefrith
Gyda chyracs carbord a straw i ni,
Gorfod ei gymeryd, Ych a fi.

Mynd i fyni i'r Pendraw,
Miss Williams yn gafael yn ein llaw
Dau funud dyna chi,
Brysio yn sydyn i 'bi pi',
Chwilio allan am y glana
Rhag ofn inni faeddu'n sana.

Symud i fyni at Annie Baines
Wel, dyna chwi athrawes efo 'brains'
Dysgu'r tablau, un dau tri,
Pawb yn canu, ffidl di di.

Cario gas masks Mickey Mouse,
Pawb yn ffoi i cellar house,
Gwranddo ar y siren, cael yr OK,
Pawb yn mynd yn ôl i'w le.

Std. 1

Mynd i standard one,
Pawb yn crynu a gwan;
Gorfod dysgu Saesneg
Single and plural, alarch yn swan,
Dyna steil Miss Hughes, the only one.

Miss Laura Mary Hughes
Hefyd yn athrawes PT,
Ychydig o wynt oedd ganddi hi,
Bean bags a mat a dyna ni,
Allan ymhob tywydd nes bod yn biws.

Std. 2

Wel, ymlaen a ni i standard two.
Llechan las a charreg nadd, one or two,
Miss Parry my dear,
Yn gweiddi efo llais clir,
'Hold up your hand,
A chacl y gansen hir;
Tro arall byddai'n dweud
'Hold your knuckles
And stop your chuckles.'



Mr Leslie Larsen.

Std. 3

Mynd i standard three,
Dechrau byhafio wnawn ni,
Athro newydd sbon,
Leslie Larsen o G'narfion,
Rocdd 'o' yn film star i ni
Yn enwedig genod standard three.

Std. 4

Symud i standard four,
Class y wireless a'r gramaffôn,
Yno i'n derbyn yn wen i gyd
John Morris, rydym yn dal i'ch
cofio chi.

Trysor o ddyn, atgofion fil,
Pam yr aethoch i ben draw Llŷn?
Dyna oedd yr alwad, un
golled enfawr i ni bob un.

Std. 5

Blwyddyn galed yn ein hanes,
Class y sgolarship,
'Gweithiwrch yn galed', meddai
Dilys Sloman,
Un ai hardship, neu dan y doman.

Form 1

Braf oedd mynd i Form one,
O grafangau perthynas i,
Cawsom groeso gan Jini May,
Ffordd o ddsygu, a gwybod be oedd be.

Class Canu

Cawsom ganu, cawsom weddi,
Cawsom gôr neu ddau,
Ganddon ni roedd athro cerdd go iawn,
Efe oedd yn feistr cerdd gwerthfawr.



Mr Garison Williams

Mynd i Bryn Eryr - roedd yn
goleg i ni,
Dair gwaith yr wythnos, dyna sbri.
Dysgu cymorth cyntaf, a cookery,
Sut i olchi a gwneud te, gyda Nansi.

Rhaid cofio am Miss Owen,
Roedd yn dod o fferm Rhos Ddu,
Cwl fel y lili,
A hoffi dweud stori.

Form 1

Heb anghofio'r pwysicaf un,
Mr Tom Jones, y parchus un,
Doedd dim angen ysgol ramadeg
Roedd ef yn ddyn ymhell cyn ei adcg.

Dyn tawel oedd Roberts School,
Braidd yn rhy cwl,
Creadur! mi roedd yn trio cael trefn,
Roedd ofn troi'i gefn
Ar blant direidus Central School.

Heb anghofio merched y gegin -
Anti Olwen a Miss Davies;
Barclod gwyn a barclod bras
Ond roeddent yn gwybod sut i
wneud blas.

GWENLLIAN

Prifathro: Mr G. T. Roberts;
Babanod: Miss Williams;
Babanod: Miss Annie Baines
Griffiths; Std. 1: Miss Laura
Mary Hughes; Std. 2: Miss
Parry, Gwynant; Std. 3: Mr
Leslie Larsen; Std. 4: Mr John
Morris; Std. 5: Mrs Dilys
Sloman; Form 1: Miss Jenny
May Parry; Form 1, 2 a 3: Mr
Tom Jones, Llanberis; Canu:
Mr Garison Williams; Ceginio:
Miss Nansi Jones; Form 2 a 3:
Miss Owen, Rhos Ddu.
Hefyd Babanod: Miss Jenny
Jones.
Cynharach: Mr Watkin Jones;
Mrs Meira Bryn Hughes; Mr
Emlyn Jones, East Lynne; Miss
Nancy Jones, Llawfer; Miss
Heritage (Cissy Lloyd); Mr
David Jones, Carfan, Pentir.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

O SIAMBAR SELWYN

O ddarllen i mewn i hen hanes a hen arferion ein cyn-deidiau mae'n hawdd iawn sylwi na fyddan nhw yn gwneud fawr o bethau heb fod 'na reswm dros wneud hynny. Mae hynny'n wir am yr enwau a roddent ar eu tai a'u tyddynod.

'Does na ddim ystyr na hanes i'r enwau sydd ar ambell dŷ, ac fe welir sawl enw Saesneg fel Boston House, Liverpool House, Regent House a sawl 'house' arall mewn amryw o'n pentrefi.

Fe'm ganed i mewn tŷ o'r enw Gwynfryn ym Methel. 'Does na'r un 'bryn' yn agos i'r lle, ac hyd y gwn i 'doedd na'r un Gwyn yn byw yno. Fe dreuliais y rhan fwy o fy nyddiau ym Methel mewn tŷ a adwaenid fel Bryn Alun. 'Does na'r un bryn yn agos at y tŷ hwnnw chwaith a, hyd y gwn i, fuo 'na yr un Alun yn byw ynddo crioed. Ond cto yn yr un stryd a Bryn Alun, mae 'na Rhos Alun ac Alun House. Tybed fod 'na rhyw Alun wedi bod yn gyfrifol am adeiladu'r tai?

Ond mae'r enwau a roddwyd ar rai o hen dyddynod ardal Bethel yn fwy diddorol o lawer. Fe gyfeiriaf at 'Y DDÔL. Gelwid ef yn yr

hen ddyddiau yn DDÔL DDEUTO. Yn llyfr *Enwau Lleoedd*, Myrddin Fardd, cyfeirir ato fel DDÔL DDEITO. Ystyr digon gwan a roddir i'r enw gan Myrddin Fardd sef 'tebygol mai DDÔL DDEINDO neu DDEINTO a olygir, sef "dain" sy'n golygu "fine" neu "pure" yn Saesneg.'

Mae'n well gen i dderbyn yr ystyr a roddodd yr hen gyfaill Bob Owen, Croesor i ni sef: 'mai ystyr Y DDÔL ydi "dolen", ac mae pob lle bron â "dol" yn yr enw ar lan afon, a'r afon honno yn amgylchynu a gwyrddroi fel dolen. Y mae'r gair "dol" yn hannu o'r un gair ag "addoli", sef plygu neu grymu neu wyro.'

Mae'r DDÔL yn un o dyddynnod hynaf ardal Bethel. Yn y cofrestrau eglwysig gwelir fod yna John Evan a Mary, ci wraig, yn trigo yno yn 1752, ond mae lle i gredu fod yr adeilad yno sawl blwyddyn cyn hynny.

Efallai iddo gael ei adeiladu tua'r un adeg â'r ADEN, un o adeiladau hynotaf yr ardal oherwydd, yn ôl hen draddodiad, mi fuo 'na eglwys ar y safle Roedd safle'r eglwys hon heb fod ymhell o'r DDÔL, ar gae a adwaenid fel 'Cae'r Eglwys'.

Tua'r flwyddyn 1873 yr aeiladwyd tŷ newydd Yr Aden fel y gwelir ef heddiw, a dywedir mai o adfeilion yr hen eglwys y cafwyd rhai o'r cerrig i gwblhau y gwaith, ac fe dystiodd rhai o'r adeiladwyr iddynt ddarganfod rhai esgyrn dynol yma. Dywed rhai mai yma, ychydig yn is i lawr na'r fan lle saif hen dyddyn Y DDÔL heddiw, yr oedd hen fynwent yr ardal. Dyna'r eglurhad o bosib am yr esgyrn dynol a ganfyddwyd yma.

Mae lle i gredu, hefyd, awgrymiad Bob Owen Croesor sef fod y gair 'dôl' yn hanu o'r un gair ag addoli.

Honnir i'r ADEN gael ei enwi ar y sail i'r hen eglwys a fu yma ganrifoedd yn ôl gael ei chyflwyno i IDAN SANT, cyn sylfaenu eglwysi Llanfihangel yn Rug a Llanfair is gaer mewn cyfnod diweddarach.

Mae'n ffaith fod yna addoli yn hen dyddyn Y Ddôl cyn agor y Capel Annibynwyr ym Methel yn 1810. Gwelir cyfeiriad at hyn yng nghofiant y Parch David Griffith Bethel ac yn Llawlyfr Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gyhoeddwyd yn 1930.

Dywedir bod Ysgol Sul yn

cael ei chynnal yn gyson yno mewn ystafell fechan dywyll, a'r unig ffenestr ynddi yn ddim ond wyth modfedd sgwâr. Byddai pawb yn mynd a channwyll gydag o, a hynny gefn dydd golau, am fod yr ystafell mor dywyll.

Mae'r hen dyddyn Ddôl Ddeuto/Ddeito yn dal ar ei draed, yn allanol yn union fel yr oedd o yn agos i dair canrif yn ôl. Mae o yno o hyd yn wyngalchog-falch gyferbyn â'r byngalo modern. 'Does 'na ddim sŵn emyn na gweddi o'i gwmpas heddiw, - dim ond sŵn grwnan lorïau.

Does 'na neb yn claddu eu hanwyliaid yn yr hen fynwent gron a arferai fod rhwng y Ddôl a'r Aden, ac mae cerrig o adfeilion hen Eglwys Idan Sant yn rhan o furiau ffermdy Aden, Pontrug.

Pan agorwyd Capel Bethel yn 1810, tri ar ddeg o aelodau oedd yno, ac yn eu plith roedd enwau Robert Evans, Y Ddôl a'i briod, Elizabeth.

Y Sul diwethaf roeddwn i yng Nghapel Bethel a - coeliwch neu beidio, - ia, tri ar ddeg oedd yno yn addoli. Rhyfedd o fyd.

Blwyddyn Newydd Dda i chi.

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org



BUWDD
MAARNAU FLOTTER
GWEYDOL
Spre
NATIONAL LOTTERY
CHARITIES BOARD
Wales



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175
GWYLIAU CARTREF A THRAMOR
Gwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliu oll-gynhwysol



Harddwch eich cartref gyda FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

TANGNEFEDD



*Adenydd colomen pe cawn,
ehedwn a chrwydrwn ymhell,
I gopa bryn Nebo mi awn
I olwg ardaloedd sydd well, ...*

Fel 'na yn union y canodd yr emynydd, sef Thomas Wiliam, (1761-1844), Bethesda'r Fro.

Loetran roeddwn i, a hitha'n hwyrdydd haf, yn y flwyddyn 1994. Aros ennyd cyn ailgychwyn ac, wrth lin-di-loncian fesul tipyn ar hyd un o'm hoff ffyrdd yng nghefn gwlad, rhyw feddwl pa mor ffodus rydan ni o ran yr holl gyfoeth a'r atyniada i lygaid a drig yng nghysgod clawdd neu wrych.

Ond yna, rhwng Pensarn a Lôn Las, daeth tro ar fyd. Gwelwn goloman lwyd yn gwingo ar ochr y ffordd fawr. Coloman rasio ydoedd hi, a'r gwaed yn ceulo ar ei hadenydd. Ni allai hedfan. O'i chodi a'i gollwng, disgynnai fel deryn o blwm. A dyna ble roeddwn ar fy nghyfyng gyngor beth i'w 'neud â'r aderyn clwyfedig! Ni allwn fentro mynd a hi adra oherwydd bod acw giathod! Arafodd modur wrth fy ochor, a llais yn fy nghyfarfarch.

'Mewn traffarth rydach chi?' holodd Cymraeg.

'Cloman sy wedi brifo'i dwy aden,' mentrais ddeud.

Ar hyn daeth lonciwr heibio a'i wynt yn ei ddwrn. Arafodd, a stopio'n stond. Cymro Cymraeg ydoedd hefo peth anadl yn sbar i'm cynorthwyo i gludo'r goloman a anafwyd i Lôn Las. Yno fe'n croesawyd gan Gruff Wiliam, sef y diweddar Gruffudd Wiliam erbyn hyn, a Gwladys ei wraig.

Cymry oeddynt, wedi ymddeol ers blyneddau, ac o ran cyrff ac eneidia, mor ifanc ag erioed.

Rhoddydd yr enw 'Tangnefedd' ar y goloman ac yno y buodd hi am fis ac wnos. Cafodd pob gofal posib a charedigrwydd o'r mwya. Yn Lôn Las roedd hen gawell adar, a thaenwyd grawn ar ei waelod. Cedwid y cawell a'r goloman

allan yn ystod y dydd, ond gynted ag roedd yr haul yn mynd i'w wely, eid a'r cawell i fan diogel mewn adeilad wrth ymyl y tŷ, gan ofalu'i ddwyn i ola dydd drannoeth.

Wedi hynny, ar fy nghrwydriadau, aeth yn arferiad gen i alw'n Lôn Las, er mwyn ca'l sgwrsio'n bennaf ac hefyd i holi ynghylch Tangnefedd. A byddai Gruff Wiliam, hefo sioncrwydd yn ei lyg'id, yn deud 'Tangnefedd! Yli, dacw hi! Mae hi'n dilyn Gwladys y wraig i bob man!'

Petha fel hyn sy wedi aros yn y cof am gefn gwlad, a chymeriadau cyffelyb i Ruff a Gwladys Wiliam, Lôn Las, ia - hen yd y wlad go iawn. Drwyddyt hwy cyfoethogwyd fy mywyd, a thrwyddyt yn ogystal y dysgais am Fywyd.

A Thangnefedd? Gŵyr aderyn ac anifail yn dda ble mae nodedd i'w gal; gŵyr os oes yno groeso. Fe gryhaodd y goloman, diolch i Gwladys a'r diweddar Gruff Wiliam. Onid oeddynt yn cyflawni'r hyn a dd'wedodd Dewi, Nawddsant Cymru, wrthym am 'neud, sef 'gwnwch y pethau bychain', a hynny drwy osod mymryn o rawn India Corn a sosraidd o ddŵr glân a chroyw yn feunyddiol ar gyfer un claf pluog? O'i rhyddhau o'r gawell, aeth yr aderyn i ddechra clwydo gyda'r nos ar ben simdde'r bwthyn ac yna un diwrnod, yn ôl pobol dda'r hen le, hedfanodd uwchben y caeau ger Lôn Las, cylch-drodd ddwywaith yn yr awyr ac yna roedd wedi - wedi mynd!

*Adenydd colomen pe cawn,
ehedwn a chrwydrwn ymhell
I gopa bryn Nebo mi awn...*

ond gyda'r nerth dd'wedwn i, ia, - i fod yn ddiolchgar am y petha bychain mewn hyn o fyd, a bywyd ddaearol.

Canlyniadau ac Atebion Cystadleuaeth Byd Natur

Defnyddio Llythyren Gyntaf Pob Ateb i Ffurio Gair

Ni chystadluodd yr un enaid byw - yn rhy brysur mae'n debyg - yn byta twrci, a ballu!

1. Enw arall yn y Gymraeg am Sgwarnog. Dau enw arall ydyw *ceinach* a'r *pryf mawr*. Felly C am *ceinach*!
2. Llythyren gyntaf 1-9 Llyfrau gan y diweddar Ted Breeze Jones, a'r arlunydd o Benisarwaen, Islwyn Williams. Yr ateb: *Adar*.
3. Enw arall Cymraeg am Eirlys yr Wyddfa. Ia, L am *Lili'r Wyddfa*.
4. Anifail a ddiplannodd o Gymru (a ddychwela) yn enw pwll yn Afon Conwy. Yr *Afan* oedd mewn golwg.
5. Ac yn olaf, Anfonodd un Teiliwr Llundain i Landŵr - beth ydyw? Dyna chi, *Nico*, o'r gerdd enwog gan Cynan.

CALAN oedd y gair.

Gwylwch y golofn, bydd Cystadleuaeth arall Byd Natur ym mis Mawrth!

Gwaith Cynnal a Chadw

GWAITH CYNNAL A CHADW. Yn dilyn y tywydd drwg ac effaith pwysedd ymwelwyr a fu'n erydu'r llwybrau cerdded yn ddiweddar, mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi gwario £18,000 ar roi wyneb newydd a gwell ffosydd i'r llwybr march yn Maesgwm. Dechreuwyd ar y gwaith rhyw 6 wythnos yn ôl, a'r gobaith, os ydy'r tywydd yn caniatáu, yw cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Chwefror.

Mae'r Parc hefyd yn cydweithio'n agos â Phartneriaeth Llwybrau'r Ucheldir i adnewyddu'r man cyfarfod rhwng llwybr y Mwynwyr a'r llwybr Pyg. Mae'r gwaith yma o adfer y llwybrau yn rhan o waith ehangach i adnewyddu llwybrau mynyddoedd Eryri.

Yn ogystal â'r gwaith yma, y flwyddyn nesaf y bwriad yw rhoi blaenoriaeth i Allt Moses ar ran o Lwybr Llanberis. Oherwydd y difrod a wnaed yno drwy erydiad, mae'n debyg y gall y gwaith yma gymryd dwy flynedd i'w gwblhau. TYN YR AELGARTH.

Newidwyd tenantiaeth yr hen Rali yn ystod yr haf ond gan mai Tŷ Haf yw yr hen dŷ bellach nid oes gwybodaeth ar gael am y perchennog newydd. NEWYDDION CYFFREDINOL ODDI WRTH AWDURDOD Y PARC.

Mi glywsoc'h chi mae'n debyg am foch yn hedfan, ond o fewn yr wythnosau nesaf, mae'n bosib y gwelwch chi bont yn hedfan! Fel rhan o waith atgyweirio llwybrau Pedol yr Wyddfa, bydd pont dderw newydd yn cael ei chludo gan hofrennydd a'i gosod ar y llwybr o Gwm Dyli i'r Lliwedd. Pont ddur sydd yno ar hyn o bryd, ond fe fydd y bont dderw newydd a gynhyrchir gan Weithdy Gwynant Pierce Llanrug yn lletach na'r bont bresennol, ac yn gweddu'n well i'r tirlun.



CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensïynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616



ORIEL CWM Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

CHWILOTA

Colli Enwau Llafar



Soniais y mis diwethaf fel y mae Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog yn cofnodi enwau llafar a'u lleoli ar fapiau o'r ardal. Awgrymais mai da o beth fyddai i ninnau, ddarllenwyr y golofn hon, fynd ati i wneud casgliad tebyg. Rhestrais nifer o enwau (rhai ohonynt wedi eu cofnodi ar fapiau swyddogol yr O.S.) am gerrig a phyllau, ac ambell afon a chlogwyn. Ddaeth neb i gysylltiad i geisio lleoli yr un o'r rhain. Felly, rhag ofn fod rhai ohonoch yn parhau yn y niwl ynglŷn ag ambell un, dyma'r rhestr yn llawn.

Cerrig neu Feini

Carreg Arthur – ar lethrau'r Cefn Du uwchben ardal Tan y Coed.

Carreg Lefain – yn uwch na Charreg Arthur, a rhwng hen dyddyn Pant Hafodlas, Ceunant a chopar mynydd.

Cerrig Padell y Brain – unwaith eto, ar lethrau'r Cefn Du, ond y tro hwn heb fod ymhell o Bendas Eithin, y Waunfawr.

Carreg Llygoden – cnw ar garreg fawr yn afon Saint rhwng Pontrhythallt a'r Cwawia, Llanrug.

Pyllau

Pwll Batus – pwll yn afon Goch heb fod ymhell o Lwyn Celyn, Llanberis.

Llyn Tywod – yn afon Saint ger Cwawia, Llanrug.

Llyn Yngan – yn afon Saint, yn y ddolen anferth ger Cac Dôl Eiddyn, Pontrug (neu Gerddi Seiont i'r rhai ohonoch sy'n arddwyr).

Afon

Afon Ifor – y nant fechan sy'n llifo o Gefn Du drwy Dan y Coed, ar draws Parc Minffordd i Blastirion ac ymlaen i Bontrug, ble'r ymuna â'r Saint.

Clogwyn

Clogwyn Eiddew – rhywle ar lannau Llyn Padarn, ond mae'r lleoliad yn parhau'n ddirgelwch!

Daeth un o'r darllenwyr i gysylltiad â mi yn addo rhestru a mapio enwau ar gaeau a thiroedd yn yr ardal rhwng y Maen Llwyd (Manllwyd) a Thy Du, yn Llanberis. Gan fawr hyderu y cawn gyhoeddi'r rhestr honno'n fuan, fel y bo'n sbardun i eraill ddechrau cofnodi yn eu hardaloedd eu hunain.

Pwy enwodd Llyn Doctor?

Mae cenedlaethau o blant Llanrug a phlant Ysgol Brynrefail, ers iddi gael ei lleoli yn Llanrug, yn gwybod mai Llyn Doctor yw'r pwll anferth yn afon Saint yn union islaw i gaeau chwarae'r ysgol. Yno y byddai plant Llanrug yn heidio i nofio – yn y gorffennol

pell, pan fyddai pob haf yn grasboeth! Ond pwy oedd y 'doctor' a roes ei deitl yn enw i'r pwll?

Cymharol ddiweddar yw'r criw a adeiladwyd i gronni dŵr yma. Hynny yw, diweddar o'i gymharu â chriw Llyn Garreg Fawr yn uwch i fyny'r afon, a fu mewn bodolaeth ers canrifoedd, yn bwydo melin Glasgoed neu Felin Cwawia fel y gelwid hi'n ddiweddarach, â dŵr. Mcln fechan oedd yn cael dŵr o Lyn Doctor, ac mae'n ymddangos mai Dcwi Orwig oedd y mclinydd olaf, neu o leiaf y tenant olaf i'r felin. Ni fu defnydd iddi, hyd y gwn i, ers dechrau'r 1920'au.

Ceisiwyd darganfod o'r blaen pwy oedd y 'doctor' sydd a'i enw ar y pwll. Awgrymwyd rhai o ddoctoriaid cynnar yr ardal, ond nid oedd eglurhad ar pam y cysylltwyd hwy â'r pwll arbennig hwn.

Yn gynharach y mis hwn, bûm yn pori drwy rai o bapurau Porth yr Aur yn Archifdy'r Brifysgol ym Mangor. Roedd llawer o'r dogfennau'n ymwneud â Deddfau Cau'r Tiroedd Comin bron i ddau can mlynedd yn ôl. Yn eu plith deuthum ar draws cyfeiriad yn 1815 at leiniau bychain o dir ar y Rhos Rug, Llanrug. Roeddent ym meddiant perchennog Llwyn y Brain. Er nad oedd y map yn dangos lleoliad y leiniau hyn yn eglur iawn, gellir tybio eu bod rhywle yn yr ardal rhwng caeau chwarae presennol Ysgol Brynrefail, Ffordd yr Orsaf, a Phontrhythallt – hynny yw, yn union uwchlaw llwybr afon Saint. Enw'r perchennog oedd Dr John Hughes. Tybed felly a oedd yr enw yn cyfeirio at y ffaith mai'r Dr Hughes hwn o Llwyn y Brain oedd â hawl ar dir yn cyrraedd at lannau afon Saint ble mae Llyn Doctor heddiw?

Pontydd

Cyn terfynu'r llith ar enwau llafar, un cais arall i ddarllenwyr Llanddeiniolen.

Mewn adroddiad ar

weithgareddau Cyngor Plwyf Llanddeiniolen yn yr Herald Cymraeg am fis Gorffennaf 1931, cyfeiriwyd at gyflwr peryglus Pont y Felin a'r ffaith fod gwaith 'heb ei wneud yn iawn' ar Bont y Terrace. Mae'r enwau yn awgrymu fod y pontydd hyn wedi eu lleoli yn ardal Clwt y Bont – ond all unrhyw un o'r darllenwyr gadarnhau hynny?

Ywen Llanddeiniolen

Chlywais i mo'r eitem na'r rhaglen. A dweud y gwir, dwn i ddim ar pa raglen roedd yr eitem. Ond daeth cais ar y ffôn i'r llyfrgell yng Nghaernarfon gan un o ymchwilwyr BBC Radio Cymru yng Nghaerdydd yn holi am oedran Ywen Llanddeiniolen. Mae'n amlwg fod rhywun wedi honni fod ywen rhyw lan neu'i gilydd yr hynaf yng Nghymru, ac roedd angen chwilio ar fyrder am oeddrannau gwahanol goed yw mewn gwahanol lannau drwy Gymru benbaladr. Felly, er fod y cais bellach yn rhy hwyr o lawer ar gyfer pa bynnag raglen oedd yn cael ei darlledu ar y pryd, pa mor hen yw Ywen Llanddeiniolen?

Look up your Genes.

Dyna'r cnw ar raglen newydd ar Radio Wales; rhaglen sy'n cynnig gwybodaeth am olrhain achau. Cynhaliwyd diwrnod agored yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon ganol mis Ionawr. Yno roedd cyflwynwyr y rhaglen, gyda chynrychiolaeth o wahanol gymdeithasau yn cynnig cymorth ar sut i fynd ati i chwilio am hanes cich teulu. Yn eu plith roedd staff Archifdy Gwynedd, aelodau o Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, aelodau o Sefydliad y Merched a chynrychiolwyr o Amgueddfa y Ffiwsilwyr Cymreig.

Mae'n ymddangos mai dyma'r gweithgaredd amser hamdden sydd fwyaf poblogaidd yng ngwledydd Prydain ar hyn o bryd, ac y mae'r ffaith fod Cyfrifiad 1901 i'w gael (o'r diwedd!) ar y wê wedi bod yn hwb sylweddol i lawer un roi cynnig ar lunio eu cart achau.

Mae'n amlwg fod llawer o ddiddordeb mewn hel achau yn y fro hon hefyd, a llawer yn holi ar y dulliau gorau o gychwyn ar y broses o gasglu gwybodaeth a'i ddiidoli. Felly, ganol fis Mawrth eleni, rwy'n bwriadu cynnal cwrs byr i ddechrcuwr yn Y Sefydliad Goffa, Llanrug. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â mi, ond bydd manylion llawn yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o'r 'Eco'.

Ffatri Bedwargoed

Gair byr i ddweud fod darlennydd wedi addo rhoi ychydig nodiadau am y ffatri, gan gynnwys y rhes bythynnod oedd yn gysylltiedig â'r ffatri.

Ail-godi'r hen Sgwarnog!

Er i mi ddweud yn y rhifyn diwethaf fod yn rhaid cau pen y mwdwl ar stori'r teulu Hume o Lanberis, mae ffeithiau diddorol yn parhau i ddod i'r amlwg. Ychydig ddyddiau cyn cyflwyno'r sylwadau hyn i'r Wasg, daeth galwad ffôn o Gaerdydd. Roedd gan y wraig ar ben arall y lein gerdyn post yn ei meddiant wedi ei gyfeirio i Harriet Hume yn Lanberis. A'r marc post arno? Goeliwch chi mai Hollywood, Califfornia oedd o? Felly, mae'n ymddangos fod rhyw gysylltiad rhwng un o ferched y teulu â chartref y byd ffilmiau. Efallai y bydd mwy o wybodaeth erbyn y rhifyn nesaf.

Canrif o Luniau

Dros y chwarter canrif diwethaf ymddangosodd rhai degau o luniau, hen a chyfoes, ar dudalennau'r 'Eco'. Sawl blwyddyn yn ôl bellach, cafwyd arddangosfa fendigedig yn Lanberis, a chyhoeddi'r llyfr 'Hen Luniau Bro Eco'r Wyddfa' yn dilyn hynny. Bu sawl pentref led-led Cymru yn dathlu'r milflwydd drwy gyhoeddi casgliadau o luniau o'u broydd am y ganrif a fu. Un o'r llyfrau mwyaf diddorol i mi ei weld oedd un wedi ei gyhoeddi gan drigolion ardal Llansilin ger Croesoswallt, ardal sy'n parhau i ymfalchio yn ei Chymreictod, er mor agos i'r ffin, ac ardal a fydd yn rhan o fro'r Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Fel rhan o weithgareddau Pwyllgor Y Sefydliad Coffa, Llanrug, mae'n fwriad cynnal arddangosfa o luniau o'r pentref am y ganrif ddiwethaf (neu cyn hynny os oes lluniau ar gael!) Y gobaith yw cynnal yr arddangosfa yn ystod mis Mai eleni, ond mae'r cyfan yn ddibynol ar faint o luniau y gellir eu casglu ynghyd i'w harddangos. Apêl sydd yma am i unrhyw un sydd â lluniau diddorol yn ymwneud ag unrhyw agwedd o fywyd y pentref dros y ganrif ddiwethaf gysylltu â mi gynted â phosibl.

A dyna'r cyfan am y mis. Braidd yn bytiog mae gen i ofn, a fawr o gig ar ambell asgwrn. Ond felly mae hi wedi'r Dolig.

Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515) ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r 'Eco'.

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanberis

Cynhaliwyd cyfarfod o gyngor Cymuned Llanberis ar nos Iau, Rhagfyr 19 2002 yn 'Angorfa', Llanberis am 7 o'r gloch. Y Cynghorydd Dei Tomos oedd yn y gadair. Derbyniwyd cofnodion Tachwedd fel rhai cywir.

Materion o'r Cofnodion:

Trafodwyd beicio mynydd ar lwybr Yr Wyddfa, a'r peryglon sy'n deillio o hynny. Derbyniwyd copi o lythyr at Ken Jones, Blaen Ddôl yn ateb ei ymholiadau ynglŷn â'r gwaharddiad, a llythyr oddi wrth Barbara Jones o'r Parc Cenedlaethol yn datgan ei bwriad i fynychu cyfarfod y Cyngor i drafod y pwnc ym mis Chwefror. Cytunwyd fod angen addasu'r cytundeb presennol ar feicio mynydd ar Lwybr Llanberis, Yr Wyddfa gan ystyried y canlynol.

a) Mae tystiolaeth fod cerddwyr ac ymwelwyr yn ansicr o'r gwaharddiad presennol felly dywedwyd fod angen cael arwyddion cliriach i esbonio'n well y gwaharddiad beicio gwirfoddol sy'n bodoli. Mae angen sicrhau fod gwybodaeth am y gwaharddiad yn cael ei arddangos mewn siopau lleol ac ar wefannau priodol.

(b) Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o gael mwy o wardeiniol ar y llwybr.

(c) Ystyried goblygiadau y Ddeddf Cefn Gwlad ddiweddaraf ar y gwaharddiad. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr at Mrs Barbara Jones yn mynegi pryder ynglŷn â hynny.

Cysgodfan bws - derbyniwyd ateb gan M. W. Cowtan, Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd yn dweud ei fod wedi gosod y cais am safle bws newydd ar y rhestr aros. Mynegwyd pryder ynghylch cyflwr yr arhosfan gan y Cynghorydd Ken Jones. Penderfynwyd gofyn i Mr Noel Owen beintio'r arhosfan i guddio'r graffiti aflan sydd yno cyn gynted ag y bo modd.

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Ken Jones am y cyfarfod ynglŷn â thaculo pentrefi ym Mhlas Menai ar y 25ain o Dachwedd. Mynegwyd pryder gan y Cyng Fred Owen ynglŷn â'r blerwch ym Mharc Padarn, Llanberis.

Penderfynwyd ysgrifennu at gyngor Gwynedd i ofyn iddynt glirio'r llanastr.

Derbyniwyd fersiwn Gymraeg o ddogfen holiadur gan y Tribiwnlys Prisio ond penderfynwyd nad yw 'Angorfa' yn adeilad addas ar gyfer cynnal tribiwnlys oherwydd cyfyngder yr adeilad. Cytunwyd gyrru llythyr atynt i ddweud hynny.

Er gwybodaeth, cafodd y ceisiadau cynllunio canlynol eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir:

Estyniad i Afon House, Llanberis;

Estyniad i 16 Lôn Capel Coch, Llanberis;

Codi garej ddwbl yn 6 Victoria Terr, Llanberis.

Nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio canlynol:

Codi cwt ar gyfer storio dŵr, pwmp a generadur argyfwng ar safle hen danc dŵr, Ystafelloedd te, Pen Y Ceunant Isaf, Llanberis.

Trafodwyd dogfen ymgyrch Cyfeillion Y Ddaear ynglŷn â 'Chyfiawnder Cynllunio i Gymru'. Penderfynwyd gyrru llythyr at y mudiad i ddatgan fod aelodau'r Cyngor yn gefnogol i'r ymgyrch yma. Mae CyDd yn galw am ddeddfwriaeth a fyddai'n caniatáu i wrthwynebwyr yr hawl i fynd i apêl ar ôl i Awdurdod Cynllunio ganiatau adeilad neu ddatblygiad.

Ar hyn o bryd dim ond y sawl sydd wedi ei wrthod gaiff wneud apêl.

Derbyniwyd adroddiad ar gyflwr y cerrig beddau yn y fynwent. Ni chafwyd ateb gan y pla laddwr ynglŷn â gwaredu'r twrch daear hyd yn hyn.

Yn ôl y Cynghorydd Fred Owen mae pryder ynglŷn â phresenoldeb cŵn ffyrnig ar Lwybr 23 ger Ffordd Ty Du. Cytunodd Mr Owen i gael mwy o fanylion erbyn y cyfarfod nesaf, ac yn y cyfamser mae'r Clerc i ysgrifennu llythyr at yr heddlu yn datgan pryder fod y cŵn, ar un achlysur, wedi neidio dros y wal i'r llwybr gan beri cryn ofid ac ofn i Mr Owen.

Vstyried Ceisiadau am gymorth ariannol:

Cyn trafod y ceisiadau dywedodd yr aelodau canlynol fod ganddynt gysylltiad personol gyda rhai mudiadau: Ken Jones - Clwb Pêl-droed Llanberis, Clwb Pêl-droed Ieuenctid Llanberis.

Helen Sharp - Côr Lleisiau Lliwedd

Anne Cumberton - Consortiwm Busnes Llanberis

Olwen Gwilym - Rygarug, Theatr Bara Caws.

Daeth y ceisiadau gan y canlynol i law a phenderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn:

Clwb Y Castell, Llanberis £50; Cylch Meithrin Llanberis Tâl Rhent; Clwb Snwcer Llanberis (2 dîm) £100; Côr Lleisiau Lliwedd Llanberis £100; Cymdeithas Lenyddol Undebol Llanberis £50; Llanberis Colts FC (2 dîm) £200; Eco'r Wyddfa £400; Rygarug £200; Pwyllgor Anabl Merched Y Wawr, Arfon £50; Y Groes Goch Brydeinig £50; North Wales Assoc. Spina Bifida £100; Cwmni'r Fran Wen £100; Teganfa Arfon £50;

Shelter Cymru £50; Theatr Bara Caws £100; Childline Cymru £100; Bobath Cymru £50; Cymdeithas Y Byddar Gogledd Cymru £50; Order of St John £50; Marie Curie Cancer Care £50; Cronfa R. H. Owen £300; Consortiwm Busnes Llanberis £2,000; Llanberis Brownies £50; Llanberis Rainbow £50; Cynllun Dioddefwyr Môn ac Arfon £50.

Gan na dderbyniwyd cais am gymorth penderfynwyd peidio a chyfrannu at yr Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd na'r Eisteddfod Genedlaethol.

Cytunodd yr aelodau i anfon gair at Consortiwm Busnes

Llanberis i'w llongyfarch ar lwyddiant y goleuadau/addurniadau Nadolig; ac at drigolion Nant Peris ar lwyddiant eu cyngerdd Nadolig yn eglwys Peris Sant.

Penderfynodd aelodau'r cyngor (tra roedd Dafydd Whiteside Thomas allan o'r ystafell), gyfrannu rhodd o £100 iddo fel arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad o'i waith diflino a thrylwyr dros y blynyddoedd fel Clerc i Gyngor Cymuned Llanberis.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15. Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7 o'r gloch nos Iau y 16eg o Ionawr yn brydlon.

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Jones

Contractwyr

Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

Silver STAR

GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanyllion am ein teithiau, ffloniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr:

£40: (79) Ms Catrin Lowri, 3 Croes y Waun; £25: (248) Mr Elfyn Griffith, 6 Tŷ Hen; £10: (189) Mrs Olwen Owen, 23 Tref Eilian.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr yn nhŷ Mrs Nancy Buckley, 4 Croes y Waun. Croesawodd Mrs Catherine A. Jones, y Llywydd, Mrs Kit Jones a Mrs Connie Thomas fel aelodau newydd.

Cafwyd fideo ar 'Fasnach Deg' oedd yn annog yr aelodau i brynu nwyddau o dan y label yma. Gwnaed trefniadau ar gyfer y Cinio Nadolig oedd i'w gynnal ar 18 Ionawr. Diolchodd y Llywydd i Mrs Buckley am y croeso a hefyd am y te a'r danteithion. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Mrs Iris Evans, gan Mrs Kit Jones.

Ar 8 Ionawr aeth 13 o'r aelodau i'r 'County Manor', y Felinheli i fwynhau Cinio Nadolig. Cafwyd bwyd ardderchog a phawb wedi mwynhau eu hunain.

Ym mis Chwefror bydd Dr Hugh Roberts yn rhoi sgwrs. Mae croeso cynnes i aelodau newydd.

CLWB BOWLIO. Bu farw un o aelodau mwyaf ffyddlon y Clwb Bowlio ar 9 Rhagfyr, sef John (Jack) Bradshaw, Castle View, Roedd Jack wedi bod yn aelod gweithgar iawn ers sefydlu'r Clwb, dros 15 mlynedd yn ôl, bob amser yn barod iawn ei gymwynas. Cynhaliwyd ei angladd yn yr Amlogfa ym Mangor, gyda phump o'r gyd-aelodau yn cario'r corff, a llawer o aelodau'r Clwb yn bresennol. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrat i'w wraig, Hilda, a'i fab Melfyn yn eu colled.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, 13 Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas Llenyddol yn y Ganolfan pan gaed sgwrs ddifys gan y Parchedig Jeffrey Hughes, Caernarfon ar y llun enwog 'Salem'. Llywyddwyd gan Pat Parry yn absenoldeb anorod Gwilym O. Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 10 Chwefror pan gyflwynir sgwrs gan Rol Williams ar droeon trwstan a hwyliog a ddaeth i'w ran tra yn aelod o wahanol bartion Nosweithiau Llawn dros y blynnyddoedd. Y Llywydd fydd Humphrey O. Jones.

Daw y tymor i ben nos Lun, 10 Mawrth gyda'r ddarlledwraig Bethan Jones Parry yn wraig wadd. Darperir lluniaueth ysgafn y noson honno yn ogystal. Erfynnir am gefnogaeth i weddill y tymor.

LLONGYFARCHIADAU

SWYDD NEWYDD. Dymunwn yn dda i Iwan Ellis, Tŷ'n Llidiart yn ei swydd newydd fel Prifathro Ysgol y Ferch o'r Sgôr.

GENDIGAETH. Llongyfarchiadau i Elfyn a Menna Griffith, Stad Tŷ Hen ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan, Dylan, i'w merch Rhian a Martin.

DYWEDDIO. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sioned Williams. Bryn Beddau ar ei dyweddïad â Mark Flaver o Dregarth.

PRIODAS. Yng nghapel Bethel, gyda'i hewythr y Parch Ifan Roberts yn gweinyddu a'i modryb

Catrin Roberts a Miss Eirlys Jones wrth yr organ priodwyd Elin Gwilym, Llidiart Wen ac Arwyn Evans o Benygroes. Dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc yn eu bywyd priodasol.

DYMUNO ADFERIAD BUAN. Anfonwn ein cofio cynhesaf a'n dymuniadau am wellhad buan i Mrs Gwladys Greasley, Min Afon, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty;

i Mr Wyn Griffith, Ger y Nant sydd wedi bod yn yr ysbyty; at Mrs Nellie Roberts, Stad Tref Eilian a Mrs Peggy Jones, Glyn Afon sydd yn yr ysbyty ac at Robat, mab bychan Derek ac Eleri, Stad Tŷ Hen sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mr Gwilym Madog Jones, Bro Waun wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Bernard Parry, 1 Bryn Golau yn ei profedigaeth o golli ei frawd o Gaernarfon.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Peter Marston, Blaen y Nant yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Sion Jones, Penrhos ddiolch i bawb am y caredigrwydd a dderbyniodd wedi iddo dorri ei fraich.

YR URDD. Bu genethod yr Urdd yn cystadlu yn y twrnament pêl-droed 5-bob-ochr ym Mangor, dydd Sadwrn, 18 Ionawr. Chwaraeodd y tîm yn dda iawn ac roedd yn brofiad da iddynt.

O'R YSGOL FEITHRIN. Dymuna'r Ysgol Feithrin longyfarch Anti Wendy, Tan y Foel ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cerdd.

DIOLCH. Dymuna Elin ac Arwyn ddiolch o galon am yr anrhegion, y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DYMUNA Eurwyn, Sharon a Natalie, Dolwen, Ffordd yr Orsaf ddiolch yn fawr am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar enedigaeth Elain Puw. Diolch o galon hefyd i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y gefnogaeth a ddangoswyd tuag atynt tra bod Elain yn yr ysbyty yn disgwyl llawdriniaeth.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn yn y ganolfan ar 14 Ionawr. Cydymdeimlodd y Llywydd, Menna Williams, â Pat Jones sydd wedi colli ei brawd ac hefo Eirianwen Thomas sydd wedi colli ei chwaer-yng-nghyfraith yn Llandwrog.

Cydymdeimlwyd hefyd â Mrs Jennie Williams, Bod Fair. Bu farw ei brawd, Mr John Watcyn Jones o'r Wyddgrug.

Llongyfarchwyd Jean Roberts ar ddod yn nain unwaith eto. Cyflwynwyd blodau i Megan Roberts i ddiolch iddi am hyfforddi'r côr fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth Plygain. Diolchwyd i Beryl Thomas a fydd yn cymryd rhan mewn distawrwydd noddedig a drefnir gan Bwyllgor yr Anabwl.

Mr Bloddyn Williams, Caernarfon oedd y gŵr gwadd. Roedd ganddo gasgliad da o gardiau post a dogfennau sy'n gysylltiedig â thref Caernarfon, gyda rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafwyd cipolwg ar y siopau, y cei, y capeli a'r Guild Hall. Diddorol iawn oedd deall bod ocsiwn wedi ei chynnal yn y King's Head Inn yn 1804 a bod 19 o dai, gardd a chae yn Stryd Llyn wedi eu gwerthu yno.

Diolchodd Phyllis Ellis i Mr Williams am noson ddiddorol iawn a diolchwyd i Mary, Margaret ac Eryl am baratoi'r baned.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 11

Chwefror dan ofal Ella Jones, sy'n arbenigwraig ar hetiau.

DIOLCHIADAU. Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf ddiolch i'r teulu am eu caredigrwydd a'u ffyddlondeb tra roedd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch i bawb am yr holl anrhegion, cardiau a'r cardiau Nadolig a'r holl alwadau ffôn. Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Hefyd, diolch yn fawr iawn i bawb eto am yr holl anrhegion, cardiau ac ymweliadau ar achlysur ei phen-blwydd.

PROFEDIGAETHAU. Mae wedi bod yn fis trwm iawn yn yr ardal gyda sawl colled i deuluoedd a chyfeillion. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i'r canlynol:

Pat Jones, Berwyn a'r plant, 61 Glanffynnon yn dilyn marwolaeth brawd Pat, yn sydyn iawn, yn 48 mlwydd oed.

Mrs Owen a Dylan, Hafan Elen ac Eirianwen Thomas a'r teulu oll yn eu colled hwythau, sef merch a chwaer-yng-nghyfraith, lola Owen o Landwrog yn 57 oed.

I Raymond, Dafydd, Alwyn a Selwyn Morris a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs Ella Morris, Baeus, Cwm y glo.

I Margaret Jones, Sycharth, Gwêl Fynydd yn ei phrofedigaeth hi o golli ei mam, Mrs Menai Jones, ar ôl gwaeledd hir. Cydymdeimlwn â'i chwaer, Mrs Rose Fowler a'r teulu.

Bu farw Mr Wil Roberts (Wil llefrith), Glanmoelyn, yn fuan ar ôl marwolaeth ei wraig, Malltwen. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i'r plant a'u teuluoedd ac i'w ffrindiau lu.

Cydymdeimlir hefyd a Mrs J.C. Williams, Bod Fair ar farwolaeth ei brawd, Mr John Watcyn Wyn yn yr Wyddgrug.

YSGOL GYNRADD LLANRUG CROESAWU. Estynnwn ein croeso i Mrs Rhiannon Evans atom i'r ysgol gan ddymuno pob hapusrwydd iddi yn ei swydd fel un o ofalwyr yr ysgol.

Croeso hefyd i Miss Donna Jones atom dros do yn ystod absenoldeb Miss Elena Williams. YR URDD. Daeth cyfnod Eisteddfodau'r Urdd unwaith eto a'r gwaith ymarfer yn cychwyn. Os oes unrhyw aelod o'r Urdd am gystadlu yn yr Eisteddfod, mae'r testunau gennym yn yr ysgol.

Bu tîm pêl-droed pump-bob-ochr y genethod yn cystadlu yn y twrnament pêl-droed ym Mangor ddydd Sadwrn, 18 Ionawr. Fe chwaraeodd y genod yn dda iawn a daethant o fewn un pwynt i gael mynd i'r rowndiau terfynol. Da iawn chi genod. Cewch gyfle eto y flwyddyn nesaf.

DYMUNA Mrs Gwladys M. Jones o'r Dalar Deg ddiolch i gangen Llanrug o Ferched y Wawr am ei gwahodd i fod yn Llywydd Anrhydeddus y gangen. Mae'n bleser cael derbyn yr anrhydedd a diolch hefyd am y blodau hardd a dderbyniodd, wedi eu trefnu'n odidog gan Mrs Beryl Thomas, a diolch i Meirwen Lloyd am ddod a'r cinio Nadolig. Pob bendith a pharhaed y gangen am flynyddoedd.

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFAŚIA

CLADIO

CONSERFATERIS



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CERDDOROL. Llongyfarchiadau mawr i Anna George, Sŵn yr Engan ar fod yn llywyddiannus yn arholiad canu'r piano Gradd 1 gydag anrhydedd. Cynhaliwyd yr arholiad dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

GWELLHAD. Wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd dymunwn wellhad buan i Muriel Evans Cae Gwyddel a Violet Roberts Deinol House.

PWYLLGOR CYMUNEDOL.

Cyfarfu'r Pwyllgor yn y Ffestri nos Fawrth, Ionawr 21ain dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones. Hysbyswyd fod tendrau wedi eu hanfon allan i ymgynghorwyr ac y bydd yr ymatebion a ddaeth i law yn cael eu hystyried cyn diwedd y mis gan yr Is-bwyllgor Tendro fel y gall y gwaith ymgynghorol ddechrau rhag blaen. Croesawyd hefyd y newydd am yr arian nawdd a ddaeth i law i ariannu'r ymchwiliad o gronfa Cwlwm Gwledig y Cyngor Sir ac o goffrau'r WDA. Roedd tri aelod yn bresennol o'r gweithgor codi arian yn lleol i gyflwyno'r hyn a drafodwyd ganddynt ers y pwyllgor diwethaf a chafwyd awgrymiadau pellach yn y cyfarfod am syniadau i'w datblygu yn y dyfodol.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ffestri nos Fawrth, Chwefror 24ain am 7 o'r gloch.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD CANU CAROLAU Carai'r grŵp o garolwyr a fu o amgylch y fro nos Iau, Rhagfyr 19eg ddiolch yn gynnes iawn am y croeso a haelioni yr ardalwyr. Hefyd roedd yn noson arbennig o ffafriol o ran y tywydd, noson leud llawn ac nis anghofir yn fuan yr olygfa o bont Penllyn ar hyd Llyn Padarn a chopar Wyddfa yn disgleirio yn ei gwsg wen o eira. Gasglwyd y swm o £134. Roedd hyn gyda'r swm eisoes mewn llaw yn gwneud cyfanswm o £202.20 a anfonwyd ar ran yr eglwys tuag at Apêl 2002 Eglwys Bresbyteraidd Cymru i Bangladesh.

GWASANAETH NADOLIG. Plethwyd y deunydd a dderbyniwyd yn y pecyn i lansiô Apêl Bangladesh a'i gyfarpar lliwgar, i sript a baratowyd gan Lowri Roberts Williams ar gyfer cyflwyniad plant yr Ysgol Sul yn y gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd fore Sul Rhagfyr 22ain. Agorwyd y cyflwyniad gan Rhian George â chardd fodern a chafwyd disgrifiadau pellach o'r Nadolig presennol gan arwain at y Geni tlawd ym Methlehem ac anghenion gwledydd y Trydydd Byd gan Caryl ac Awen Jones a swynwyd pawb gan eu canu swynol o dair carol. Cymerydd rhan am y tro cyntaf gan Nia Heledd George a gwnaeth ei gwaith yn ardderchog. Roedd yn ofidus gennym fod Anna George wedi ei tharo yn sal y noson cynt er mawr siom iddi ond daeth Rhian i'r adwy a chyflawni'r cwbl gyda graen.

Yn ystod y gwasanaeth hefyd cymerydd rhan gan Richard Wyn Evans, Norman Williams, Jennie Roberts, Ifanwy Jones. Robert John Williams, Verna Jones ac

Emyr Williams. Trefnwyd a llywyddwyd y cyfarfod gan Gwyn Hefin Jones. Ar y terfyn cafwyd lluniaeth gampus wedi ei baratoi gan y llywydd a Geraint George.

CASGLIAD. Cyflwynwyd y casgliad wythnosol a wneir yn Nosbarth Ysgol Sul yr Oedolion eleni fel y llynedd i Apêl Tŷ Hospis yng Nghymru. Casglwyd y swm o £100 yn ystod 2002.

OEDFAON CHWEFROR

- 2 Parch H.Gwynfa Roberts, Llanwnda am 10
- 9 Parch Reuben Roberts, Bontnewydd am 5.30
- 16 Parch S. O. Hughes, Bae Colwyn am 5.30, Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 23 Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon am 5.30

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Peggy Rowlands, Talafon yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer-yng-nghyfraith, Mrs Theresa Rowlands, priod Mr Willie Rowlands (4 Dôl Afon gynt) a mam Vera a William yn Awstralia. Hefyd cydymdeimlir yn ddwys â theulu Mrs Ella Morris (nain Becws) yn eu profedigaeth lem o golli mam, nain a hen nain annwyl.

CYNGERDD NADOLIG. Diolch yn ddiffuant i blant yr ysgol, i Mrs Mair Huws y brifathrawes, yr athrawon a'r gweinyddesau am y tri cyflwyniad a gafwyd sef pantomeim 'Jincs ar y Jyngl', 'Chwilio am y Dyfodol' a 'Tua Bethlehem'. Diolch am dri diwrnod o waith canmoladwy iawn.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Miss Megan Price (Stryd Newydd gynt) sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Hefyd at Mrs Hannah Mary Roberts, 1 Bryn Gro sydd ym Mhlas Pengwaith, Llanberis am gyfnod.

LLONGYFARCHIADAU i Tina a James, 1 Dôl Afon ar enedigaeth eu mab, Jason, brawd bach i Lilac.

DIOLCH. Dymuna Neil a Michelle Rowlands ddiolch i'w teulu, ffrindiau a'u cwsmeriaid am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

GWYLIAU GWERTH CHWEIL. Ddiwedd Tachwedd 2002 aeth llond bws o Lanrug a'r pentrefi cyfagos, gan gynnwys rhai o Ynys Môn, am badwar diwrnod i'r Gresham, Blackpool. Trefnwyd y gwyliau gan Mr Gwilym Rees Parry (Teithiau Grug). Cafwyd noson gan Dylan a Neil, Tony ac Aloma, ac ar y nos Iau Noson Lawen gerth chweil gyda Ray John a Now a Nia o'r Felinheli yn cynorthwyo. Cafwyd eitemau eraill o'r gynulleidfa gref, yn cynnwys adroddiad addas am Fôn gan Elin Roberts. Noson o chwerthin iach a phawb wedi mwynhau. Diolch yn arbennig i Gwilym am wyliau hwyliog a chartrefol o'r diwrnod cyntaf. Roedd yn ddrwg ganddo orfod gwrthod llawer teithiwr gan fod y bws yn llawn. Felly, y tro nesaf y cyntaf i'r felin gaiff talu.

(Parhad ar dudalen 17)

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith) 677438 (cartref)

GWASANAETH NADOLIG. Ar ddydd Sul, 22 Rhagfyr cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Pentref. Dechreuodd y gwasanaeth hefo Catrin a Donna cyn gweld stori'r Nadolig cyntaf gan ugain o bobl ifanc a phlant yr Ysgol Sul. Diolch i Dafydd Iwan am ganu neges yr Ŵyl yng nghyd-destun y byd modern. Cyn cymdeithasu a bwyta sosej rols a mins peis canodd y gynulleidfa lu o garolau Nadolig.

CANU CAROLAU. Yn anffodus roedd rhaid symud i Ganolfan y Capel ond, unwaith eto, cafwyd hwyl yn cyd-ganu hefo Seindorf Iau Llanrug. Wedyn roedd cyfle i gymdeithasu dros gwpanaid o gawl cartref trwy garedigrwyd Gwenllian Daniel.

SHELTER CYMRU. Casglodd y fro £71.00 tuag at waith ardderchog Shelter Cymru gyda'r sawl sy'n ddigartref adeg Nadolig.

PENBLWYDDI. Llongyfarchiadau i Idris Jones, Crud yr Awel, Rhosbach ar ei ben-blwydd yn 80 oed. Hefyd yn ystod y mis bu Richard Myrddin Roberts, Bryn-y-gof yn troi 50 oed.

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yng Nghanolfan y Capel ar nos Fawrth, 14 Ionawr. Roedd y Cyngorwyr Clive James a Vera Roberts yn bresennol. Unwaith eto mae Cyngor Gwynedd wedi methu gwasanaethu'r cyhoedd trwy beidio â thawelu'r traffig trwy'r pentref, yn methu codi arwydd 'dim cicio pêl' ar y polyn lamp ym Mryn y Gof, torri'r gordyfiant dros y pafin rhwng 'Eryl' a 'Y Bwthyn', tocio'r tyfiant wrth garejys y Cyngor a chodi'r enw cywir ar 'Bryn y Gof'.

DIOLCHIADAU. Dymuna pensiynwyr y fro ddiolch i hapchwaraewyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae am eu cyfraniadau misol ac i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r rhodd Nadolig iddynt eleni.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Ionawr oedd: £40: (83) Marc a Wendi Williams, Glandwr; £25: (34) Aled a Jill Thomas, Llwyn Onn; £15: (46) Doris, 9 Tai Glangwna; £5 (86) John a Laura Griffiths.

GWASANAETHAU'R CAPEL am y mis nesaf:

- 2 Chwef am 10.00 Gwasanaeth Teuluol a phaned hefo Edward Morris Jones; am 2.00 Gwasanaeth y Tri Bedydd hefo'r Parch Huw Dylan;
- 9 Chwef am 11.00 Ysgol Sul;
- 16 Chwef am 10.00 gyda'r Parch Gwyn Eryl;
- 23 Chwef Dim gwasanaeth;
- 2 Mawrth am 11.00 Ysgol Sul am 2.00 gyda'r Parch Gwenda Richards.

PWYLLGOR Y CAE CHWARAE.

Yn y pwyllgor ar 20 Ionawr penderfynwyd gofyn am brisiau torri'r gwair ar y ddau gae chwarae yn unol â manylion i'w darparu. Agorir y tendrau yn y cyfarfod llawn nesaf ar 17 Chwefror.

Bydd cyfarfod o Is-bwyllgor uwchraddio'r cae pêl-droed ar nos Lun, 3 Chwefror am 8.00 yr hwyr yn Nhafarn Bryngwna.

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus


Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:

Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Brian a Rita
Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER
POB ACHLYSUR

- * Cig o ffermydd lleol * Partion rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

Dewch i'r ganolfan newydd
am fargeinion dodrefn



LLANRUG

yng Nghapel Mawr

LLANRUG

Ffôn: 674141

Ar agor: Llun - Sad 10-6;
Sul 10-4

Rygliau, Cabinets, Byrddau,
Cypyrddau dal llyfrau,
Desgliau, Cadeiriau, Soffas,
Gwelyau ayyb

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY


Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID

Bangor

(01248) 354646

Ysgol Brynrefail

Ymddeoliad

Ddydd Mawrth, Ionawr 14eg, ddiwrnod cyn ei phen-blwydd yn chwe deg pump, ymddeolodd Miss Catherine Rowlands a fu'n lanhawraig yn Ysgol Brynrefail ers pan oedd yn un ar hugain oed.

Dechreuodd Miss Rowlands, a gafodd ei geni a'i magu yn Llanrug ac sy'n dal i fyw yma, weithio yn yr ysgol 'nôl yn 1959, flynyddoedd cyn geni nifer o staff yr ysgol, heb sôn am y disgyblion! Yn wir, teithiodd pum prifathro, tua dau gant o athrawon a thua phum mil o ddisgyblion goridorau'r ysgol yn ystod y pedwar deg pedwar blynedd yna, ac ni phylodd gwen siriol a chyfarchiad bonheddig Miss Rowlands yr un tro.

Dyweddodd ei bod wedi penderfynu dod i weithio yn yr ysgol gan fod ganddi ffrindiau yn glanhau yn yr ysgol gynradd a'i bod yn ei weld yn waith braf. Ddychmygodd hi erioed y byddai yn aros yma cyhyd. Ond mae hynny yn nodweddiadol o Miss Rowlands oherwydd beth bynnag a wna, fe'i gwna yn gydwytbodol ac yn drwyadl.

Beth bynnag fo'r tywydd, byddai Miss Rowlands yma. Ymlwybrodd trwy eira mawr 1965 pan fu'n rhaid i ddisgyblion gysgu yn yr ysgol dros nos, a phan chwysai a chwynai pawb oherwydd poethder haf 1976 parhaodd Miss Rowlands yn ddyfal a dirwgnach gyda'i gwaith.

Newid mawr mae Miss Rowlands wedi sylwi arno yw'r dodrefn modern sydd bellach yn yr ysgol. Cofia'r desgliau a'r cadeiriau pren gyda phob math o bethau yn cael eu gadael yn y desgliau - poteli llefrith wedi suro hyd yn oed! Mae'r ysgol wedi ei ehangu nifer o weithiau ers iddi ddechrau gweithio yma hefyd a'r pryd hynny roedd iard ffrynt yr ysgol yn cyrraedd at y lôn a dim bae bysiau yn bodoli.

Newid arall mae Miss Rowlands wedi sylwi arno yw'r 'ffordd mae pobl yn siarad efo'i gilydd'. Dywedodd mai Mr, Miss, Mrs neu gyfenw yn unig oedd pawb ers talwm ond erbyn heddiw mae pobl yn fwy personol ac yn adnabod y naill a'r llall wrth eu henwau cyntaf. Yn wir mae gan Miss Rowlands hen ddigon o atgofion a stracon i ysgrifennu llyfr. Beth am fynd ati i'w cofnodi pan fydd gennych funud i'w sbario? Byddai'n bleser eu darllen.

Ac yn wir darllen yn ogystal â theithio ydi rhai o brif bleserau Miss Rowlands. Ond mae hi hefyd yn sgwrsuiraig eithriadol o ddiddorol ac yn gymwynaswraig heb ei hail.

Rhwng hynny a'r gwaith diflino a wna dros yr eglwys bydd yn siwr o lenwi ei hamser i'r ymylon.

Mewn parti ffarwelio cyflwynodd Mr Eifion Jones ddarlun i Miss Rowlands fel arwydd o werthfawrogiad o'i holl waith cydwytbodol, a dymunodd hir oes a iechyd iddi i allu mwynhau ei hymddeoliad i'r ymylon ond gan gofio fod croeso iddi ddychwelyd yma unrhyw dro.

Gwasanaeth Carolau

Nos Lun 16eg o Ragfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yr Ysgol yn Eglwys Llanberis.

Cafwyd noson i'w chofio gydag eitemau amrywiol gan gynnwys, Côr Hŷn, Côr Merched, Côr Bechgyn, Côr Iau, Côr Cymysg, Partion Adrodd a charolau cynulleidfaol.

Diwedd y noson gwnaethpwyd casgliad anrhydeddus tuag at Cymorth Cristnogol.

Hoffwn ddiolch i'r athrawon a gyfrannodd at drefnu'r eitemau ar y noson, i swyddogion yr eglwys am gael cynnal y gwasanaeth yno, i Mr Gareth Jones am gyfeilio ac i bawb a ymunodd â ni i ddathlu'r Nadolig.

Emma V Jones

Ceri Wyn Jones

Anaml yr ydw i yn ysgrifennu am ddim byd heblaw pêl-droed a rygbi, ond ar ôl clywed am gampau Ceri y misoedd diwethaf yma, dyma droi i fydd y merched.

Mae hi eisoes wedi bod yn chwarae pêl-rwyd i dîm Eryri, ac yn chwarae i dîm yr Ysgol mewn twrnament ar yr 16fed o Ionawr. Ond nid dyna beth a dynnodd fy sylw at ei dawn. Ei hoci sydd ar hyn o bryd ar y brig. Ers rhai misoedd nawr mae hi wedi bod yn mynd i chwarae mewn treialon i dîm gogledd Cymru, ac wedi llwyddo. Nawr mae hi'n aelod o'r tîm ac yn mynd i lawr i Abertawe ddiwedd y mis i dwrnament Undeb Hoci Cymru. Pob lwc iddi yn y ddau dwrnament yma.

Gan Geraint Iwan

Pêl-droed dan 16

Yng ngeiriau Mr Holland, yr athro ymarfer corff

'Gêm orau ers blynyddoedd!!' felly mae'n rhaid ei bod hi'n un dda. Ffeinal Eryri o Gwpan Cymru oedd hi gydag Ysgol Eirias ac Ysgol Brynrefail yn brwydro. Roedd y ddau dîm yn mynd drwodd beth bynnag, ond yr enillydd i chwarae y tîm

a gollai ffeinal Powys, a'r ail i chwarae enillydd ffeinal Powys, felly roedd hi'n gêm bwysig iawn i benderfynu dyfodol y timau yn y twrnament.

Sioc a gafwyd gan chwaraewyr Brynrefs' wrth edrych ar y tîm arall. Dau glamp o chwaraewyr yn rheoli canol y cae i Eirias (a doedd y lleill ddim yn fach chwaith!). Roedd hi'n gêm gyffrous o'r funud gyntaf tan y chwiban olaf, ond nid yw cyffro bob amser yn beth da i Brynrefail mewn gemau pêl-droed. Roedd hi'n ddi-sgor hanner amser, ac yn gêm ble roedd pawb yn gwybod y buasai un camgymeriad neu ddiffyg canolbwyntio yn medru bod yn gost fawr i'r tîm. Hanner ffordd drwy'r ail-hanner, ac Eirias oedd i sgorio gyntaf, doedd pethau ddim yn edrych yn dda. Ond roedd ysbryd Brynrefs yn fyw yn y tîm a, chydau ond munudau yn weddill, sgoriodd Carl Griffiths i fynd â'r gêm i amser ychwanegol.

Wedi pum munud o'r amser ychwanegol roedd pethau yn edrych yn ddu iawn arnom gan i ni adael dwy gôl wirion i mewn. Ond, unwaith eto, roedd araith emosiynol ac i'r pwynt gan y rheolwr yn ddigon i godi'r bechgyn ar eu traed. Gydag ond ychydig funudau yn unig i fynd, cafwyd dwy gôl, un gan Josh Greene a'r llall gan Mathew Roberts i dorri calonnau chwaraewyr Eirias, ac i fynd â'r gêm yn bellach fyth, sef i giciau o'r smotyn. Lwc yn unig yw y ciciau hun, ac nid oedd y lwc ar ochr Brynrefs' y diwrnod hwn. Colli o 4-2. Gêm gyffrous, ond fel y dywedais yn gynharach, nid yw cyffro bob amser yn beth da i Brynrefail.

Adolygwyr Ifanc

Yn ddiweddar cafodd cylchgrawn newydd ei ryddhau yng Ngogledd Cymru o'r enw *Bawd*. Mae'n gylchgrawn lliwgar iawn ar gyfer pobl ifanc ac yn cynnwys llawer o wybodaeth am lyfrau Cymraeg a Saesneg a rhai cystadlaethau.

Bu rhai o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn brysur iawn yn adolygu llyfrau Cymraeg a Saesneg ar gyfer y cylchgrawn.

Cafodd yr adolygiadau eu hysgrifennu gan:

Tabitha Louise Griffiths, Manon Wyn Williams, Megan Jones, Gwenno R. Roberts, Rhiannon Jones, Debbie Hughes, Nia Glyn, Gruffudd Pritchard, Sioned Evans, Annwen Angharad Williams, Ffion Jones, Dewi Foulkes. Hoffem eu llongyfarch oll am eu gwaith.

Nia Hughes.

Parti Pendalar

Daeth y Tri Gŵr doeth i Frynrefs.....

Y deunawfed o Ragfyr yn barod, ac roedd 'Y Diwrnod Mawr' wedi cyrraedd. Roedd yr holl waith called o drefnu, casglu arian, gwerthu rafflau, prynu a lapio anrhegion a'r holl banig wedi dod i ben. Y diwrnod ei hun oedd yn bwysig rwan, diwrnod Parti Nadolig Ysgol Pendalar.

Ben bore aeth criw o'r chweched a'r adran arlwyio a dechrau ar y bwyd, teisi bach, eisin, siocled, brechdanau a chreision o bob lliw a llun, a digon o fisgedi a jeli i bara hyd at 'Dolig nesa! Fe aeth criw arall i addurno'r neuadd a'r goeden Nadolig, a'r gweddill i'r ffreutur i osod hetiau parti a chracers ag ati ar y byrddau. Roedd y lle yn edrych yn wych, a phopeth yn rhedeg fel wats!

Yna fe aeth rhai o'r bechgyn o gwmpas yn tynnu lluniau, eraill yn ffilmio i gadw cofnod o'r diwrnod. Daeth yr amser nawr i fwynhau!

Cyrhaeddodd y bysiau iard yr Ysgol ac i mewn â phawb i'r neuadd, ble rhoddwyd croeso mawr i ddau seren enwog hyd S4C, yn wir, neb llai na'r gŵr doeth 'Mr Bryn Fôn' a 'Mr Dewi Pws' eu hunain. Cafwyd digon o ganu a mwynhau, a phawb yn chwerrthin. Diweddodd y sesiwn gyda phawb, yn ddisgyblion Ysgol Pendalar, yn aelodau'r chweched, yn athrawon a staff ar lawr y neuadd yn dawnsio a mwynhau.

Mae'n rhaid canmol Bryn Fôn a Dewi Pws i'r cymylau am eu hymroddiad a'u hegri drwy'r dydd. Yn wir, byddai bwlch mawr yn y parti oni bai amdanynt hwy. Diolch o waelod calon i chwi o'ch dau.

Roedd yr holl ddawnsio a'r canu 'ma'n waith llwglyd iawn, ac roedd pawb yn fwy na pharod am y wledd a'n disgwyliaid yn y ffreutur. Wedi llunau'r bwyd yn lân oddi ar y platiau, daeth dyn arbennig arall i ymweld â ni, sef Siôn Corn!

Wel, os nad oedd dau ŵr doeth yn ddigon am un prynhawn, roedd ymweliad y trydydd yn coroni'r cyfan. Dosbarthwyd anrhegion i bawb, ac yn wir roedd yr olwg ar wynebau'r plant yn fythgofiadwy!

Unwaith eto, cafwyd parti llwyddiannus iawn, a chafwyd amser da gan bawb. Hoffwn ategu ein bod fel chweched dosbarth wedi elwa cymaint o'r profiadau hyn, ac yn edrych ymlaen at y parti nesaf yn barod! Hoffwn ddiolch i'r holl

ddisgyblion, myfyrwyr ac athrawon a helpodd wneud y diwrnod yn un mor llwyddiannus.

• • •

Dymunwn ddiolch i'r busnesau a'r sefydliadau a ganlyn am eu cyfraniadau haul.

Llanrug

Spar, Swyddfa'r Post, Arvonnia, J.M. Jones a'i feibion, Hafod, Seiont Manor, Becws Bryngwyn, Ffenestri Celtic, Brynteg, Glyntwrog, Penbont, Elaine's, Dodrefn Capel Mawr, Wavells, Londis, SM Discount, Clwb Ieuencid Llanrug, Meredydd.

Penisarwaen a Cwm y Glo Chimneyline, Cartref yr Henoed, Y Dyn llefrith, Blodau Racca, Swyddfa'r Bost, Snowdon Classic Carriages.

Llanberis

DMM, Anifeiliaid Anwes, Energy Cycles, Swyddfa'r Post, Honeyfarm, Cae Coch, Prince of Wales, Padarn Kitchen, Euro DPC, Amgueddfa Llechi, Padarn Ponies, Hairlines, HG Hughes a blychau casglu.

Bethel

Swyddfa'r Post, Carreg Goch Fawr, Ceir Cymru, Merched y Wawr, Halfway House Felinheli, Dafydd Guto, Clwb Pêl-droed Bethel, Siop Bethel, Cartref yr Henoed, blwch casglu.

Deiniolen

Chwarel, Ysgol Gwaungynfi, Bull Inn, Beran.

Caernarfon

Round Table, Argos, ASC, George Thomas, Siop y Plas, Macsen, Seren Arian, W. H. Smith, Woolworth, Boots, Roberts & Owen, Gray Thomas, Anonymous Citizen, Plas Gwyn Caravan Park.

Disgyblion a gymerodd ran



Lapio'r anrhegion funud olaf! Heledd, Aneurin, Graham, Awen, Rebecca, Matthew a Nia.



Gwledd o fwyd yn disgwyl y plant.

mewn taith gerdded nodedig Mathew Guy 11'I, Justin Guy 10'S, Simon Guy 8'O Susanna Radnor 11'N, Emma Hayward 11'O, Sarah Hayward 8'N, Daniel Roberts 11T.

Ategwn mai Mrs D Guy a

Mathew a drefnodd y daith hon, ac fe gasglwyd £367.00. Da iawn chi, llongyfarchiadau. Diolch eto i bawb a gyfrannodd.

Heledd Wyn Jones



Dewi Pws, Kirsty Rogers, Bryn Fôn a Rebecca Owen ar ôl yr adloniant. Pawb wedi'u plesio, mae'n amlwg!

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cynhaliwyd cyfarfod y Cyngor nos Fawrth y 3ydd o Ragfyr yn ysgol Penisa'rwaun. Cadeiriwyd gan y Cyngorydd Richard Llwyd Jones, ef hefyd offrymodd y weddi ddechreuol. Cyfeiriwyd at y canlynol gan y Cadeirydd cyn cychwyn rhaglen y cyfarfod:

Teimlad o dristwch am fod y Cyngorydd Keith B. Jones, Bryn'refail wedi colli ei briod, penderfynwyd danfon gair o gydymdeimlad ato.

Gwybodaeth bod y Cyngorydd Aled Green, Penisa'rwaun wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty'r Royal Infirmary, Lerpwl. Penderfynwyd danfon llythyr i ddymuno'n dda iddo.

Cyfeiriwyd at y ddamwain ger Ynys Owen ac amlygwyd pryder bod bws ysgol wedi bod mewn damwain unwaith yn rhagor.

Yr crthygl ar dudalen flaen Eco'r Wyddfa fis Rhagfyr - Tŷ Elidir, Deiniolen.

Penderfynwyd llongyfarch y Cyngorydd R. Len Jones a phawb arall a fu'n weithgar yn sefydlu'r prosiect yma.

Llongyfarchwyd y Cadeirydd, Richard Llwyd Jones, ar ennill Medal Ryddiaith Eisteddfod Dyffryn Ogwen 2002.

Croesawyd Miss Sara Wood fel Cyngorydd dros ward Deiniolen a dymunwyd pob hwylustod iddi yn ei chyfrifoldeb newydd.

Derbyniwyd cofnodion Tachwedd fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion:

Adroddwyd bod Grŵp Llywio Rhiwlas wedi ei ffurfio.

Y Parc Cenedlaethol:

Gwirfoddolodd y Cyngorydd Sara Wood ystyried yr adroddiad ac, os bydd angen, gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod blyneddol Cyngorau Cymuned y Parc.

Safle Wê y BBC:

Trafodir eto pan fydd y Cyngor/Clerc yn Wêddol barod.

Lôn Cefn Braich, Rhiwlas:

Cyflwynwyd adroddiad Gwynedd a dderbyniwyd wythnos ar ôl cyfarfod Tachwedd. Danfonwyd copi ohono i aelodau Rhiwlas fel y gallent ymateb yn y cyfarfod yma. Roedd y Cyngorwyr yn derbyn dadl Gwynedd - 'Y rhan dan sylw yw tua 120 metr o ffordd i'r de o dŷ Cefn y Braich. Yr honiad yw nad ffordd gyhoeddus i gerbydau yw y 120 metr hyn o gwbl ond llwybr cyhoeddus i gerddwyr.'

Cydraddoldeb Hiliol:

Cyflwynwyd dogfen swmpus y Cynulliad ar y mater yma.

Eich Bro Chwi:

Derbyniwyd taflen gwybodaeth Gwynedd, ar ôl y cyfarfod diwethaf, yn cyhoeddi cyfarfod ar yr 21ain o Dachwedd! Gwnaed sylw bod angen mwy o rybydd o gyfarfodydd fel hyn.

Gohebiaethau eraill.

Rhyddid Gwybodaeth:

Cyflwynwyd dogfennau uniaith Saesneg yr *Information Commissioner* a phenderfynwyd disgwyl am fersiwn Gymraeg.

Grant y Parc Cenedlaethol:

Penderfynwyd trosglwyddo'r manylion i'r Grŵp Cymunedol.

Bioamrywiaeth. Derbyniwyd ymgynghoriad Gwynedd fel gwybodaeth.

Adran Ffyrdd Gwynedd:

Lle troi ceir yn ôl yn y Waun, Penisa'rwaun - nid oes digon o le yno. Penderfynwyd trosglwyddo'r wybodaeth i'r Grŵp.

Cynllunio.

Caniatwyd gan Gyngor Gwynedd:

Estyniad - Bryn Seiriol, Rhiwlas.

Ail leoli gwastraff llechi a chodi waliau Caergewyll - Chwael Dinorwig.

Estyniad - Erw Fair, Deiniolen.

Ni chaniatwyd gosod llosgydd yng Nglwt y Bont, - Cyfeiriwyd at Gyfarwyddyd Cyfeillion y Ddaear 'Cyfiawnder Cynllunio i Gymru'.

Ceisiadau Uned Cynnal a Chadw Tai Gwynedd i osod tanciau nwy yn Rhiwlas a Phenisa'rwaun. Amlygwyd barn y buasai tanc mawr yn y ddaear dipyn gwell na rhai ar wahân i bob tŷ.

Llwybrau.

Angen sylw Cyngor Gwynedd i:

(a) Coeden ar draws llwybr Bryn Pistyll, Bethel.

(b) Angen gât yn lle'r gamfa uchel yn y pen nesaf at Rhiwlas o lwybr Castell.

Materion ychwanegol.

Mac's parcio Marchlyn - angen atgoffa *First Hydro* a Chyngor Gwynedd bod sefyllfa'r sbwriel yno yn gwaethgu tra'u bod yn dadlau cyfrifoldeb.

Y llain tir o flaen cyn orsaf yr Heddlu, Deiniolen - gofyn i Wynedd a oes modd ei wneud yn ddiogelach.

Llwybr Zig-Zag, Dinorwig. Angen gwybod pryd y bwriedir ei ail agor.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 7ed o Ionawr 2003.

GWERSI PIANO

Sharon V. Williams B.A.

Pentir

(01248) 353746

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Royal Victoria Hotel LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

cyngor
ar
bopeth

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Nerys W. Owen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a chymwynas a dderbyniodd tra yn Ysbyty yn ddiweddar.

Hefyd dymuna Brian a Gwenno ddiolch am bob caredigrwydd i lestin Rees.

CYDYMDEIMLAD. Ar droad y flwyddyn bu farw Mrs Evans, Parciau, Rhos. Dymunwn bob cydymdeimlad â Wyn a'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCHIAU. Dymuna Anne a Geraint, Cilgeran ag Anthony ag Angharad ddiolch o galon am bob dymuniad da ac arwydd o garedigrwydd a dderbyniwyd yn ystod gwaeledd diweddar Siôn.

DIOLCH. Ar ôl blynyddoedd o wasanaeth yn dosbarthu'r Eco yn Nhan y Cae a Tan y Ffordd mae Mrs Rita D. Williams wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi. Diolch o galon i Rita am ei gwasanaeth a braf ydi ei gweld yn mendio ar ôl ei gwaeledd diweddar.

Diolch hefyd i Bet a Seiriol am fod mor barod i gymryd y gwaith drosodd.

DIOLCH. Hoffai Daniel Bell, Gerallt Bryn, Aaron Gwyn ac Aled Jones ddiolch yn fawr iawn i Arwel Jones, Y Ddôl a Gwion Owen, Ty'r Ysgol am eu hyfforddi mor dda ar gyfer cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd yn Abertawe mis Ionawr.

Er nad enillodd yr hogiau y ras gyfnewid rhydd, roeddent wedi cael eu hyfforddi mor dda fel eu bod nhw wedi nofio eu hamser gorau erioed. Dipyn o gamp o dan bwysau o flaen torf fawr ym mhwll mawr canolfan hamdden Penlan, Abertawe.

(Gweler y lluniau ar y dudalen chwaraeon)

LLONGYFARCHIADAU i Aled Griffiths, Llwyn Eithin ar ddod yn Beiriannydd Sifil Siartredig ac aelod cyflawn o'r *Institute of Civil Engineers*. Mae ar hyn o bryd yn gweithio gyda Mott MacDonald yn Birmingham/

MERCHED Y WAWR. Aeth 26 o'r aelodau allan am ginio Nadolig i Dŷ Bwyta Bryncir lle mwynhawyd pryd blasus wedi ei weini yn gartrefol braf gan nifer o ferched ifanc. Dymunodd y Llywydd wellhad buan i wŷr Anne Elis, sydd heb fod yn dda iawn yn ddiweddar. Soniwyd am Gystadleuaeth Gwyneth Evans, 2003 sef cyfres o luniau ar y thema 'Y Gangen yn y Gymuned', a gofynnwyd i'r aelodau am syniadau. Roedd yr Ysgrifennydd a'r Llywydd wedi paratoi cwis sef cwestiynau ar gynnwys y rhifyn cyfredol o Eco'r Wyddfa, a chafwyd dipyn o grafu pen wrth chwilio am yr atebion. Roedd chwe gwobr raffl a'r enillwyr oedd Alys, Delyth, Elizabeth, Gwyneth, Sharon a Glenys.

Cychwynwyd cyfarfod mis Ionawr trwy ganu Cân y Mudiad a

chroesawyd pawb gan y Llywydd, Beti Owen. Llongyfarchwyd Aled, mab Glenys Griffiths ar ddod yn Beiriannydd Sifil Siartredig yn ddiweddar, a chydymdeimlwyd â Sheila Roberts a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer. Atgoffwyd pawb am y noson Plygain, dan ofal y Pwyllgor Rhanbarth, a gofynnwyd yn garedig iawn i aelodau'r gangen noddi Glenys ac Eirlys yn y distawrwydd nodedig wedi ei drefnu gan Bwyllgor yr Anabl, gyda'r arian am eleni yn mynd tuag at APNOEA CWSG.

Testun y noson oedd 'Byw Bywyd Iach' a braf oedd cael croesawu tair o ferched i gyflwyno gwahanol agweddau o fyw'n iach. Ellen Evans soniodd am y cynllun 'Ymarfer trwy wahoddiad' sydd yn cael ei redeg, ar gyngor y meddyg, yn y Ganolfan Hamdden. Yna cawsom sgwrs gan Dr Ruth Dafydd am y cynllun 'Cyfri Caloriau' yng Nghwm y glo, dan adain Menter Fachwen, ac i ddiweddu 'Cydbwysedd Iechyd Da' oedd testun sgwrs Carys Owen. Cawsom ganddi holiadur bach i'w lenwi er mwyn gweld a oedd un yn llwyddo i gael cydbwysedd rhwng bwyd seimllyd a bwys startshlyd.

Diolchwyd i'r tair am noson ddiddorol ac addysgiadol gan Deilwen Hughes, ac enillydd y raffl oedd Gwyneth Williams.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd eu Cinio Nadolig eleni yn y Bedol lle cafwyd bwyd ardderchog a phawb mewn hwyliau da. Fe hoffai'r Clwb ddiolch i rai sydd wedi bod yn

garedig iawn tuag at y Clwb: Clwb Pêl-droed Bethel; Cyng Huw Price Huws; Mr Brian Williams, Caernarfon; Mrs Mary Williams, Cilgwyn Bethel; Treflyn Stores; Post Office; Ceir Cymru; Gors Bach; Tesco, Caernarfon.

Fe roddwyd diolchiadau am brynhawn hapus a chroesawus i Mr a Mrs Johns a Michelle gan Mr W. Jones a Mr Goronwy Jones.

CLWB PÊL-DROED, BETHEL

Enillwyr gwobrau mawr mis Rhagfyr oedd:

£100: Gareth Owen (Aubrey), Bethel; £50: Idris Morris, Bethel; £25: D. R. Jones, Bethel; £25: Gareth Birkett, Bethel; £10: Huw Morgan, Llanfairpwll; Dewi Wyn Williams, Bethel; Mathew Gossett, Y Felinheli; John M. Ellis, Caernarfon; Aled Williams, Bethel; Gavin Roberts, Bethel; Alice Mary Jones, Bethel; Gareth Wyn Jones, Bethel; John Bryn Williams, Bethel; Wendy Jones, Caernarfon; John Williams, Caernarfon; Gary Williams, Bethel; Natasha Williams, Bethel; J. G. Morgan, Talysarn; Wendy Hughes, Llanfairpwll; Jackie Jones, Deiniolen; M. Green, Bethel; Betty Morgan, Bethel; Lesley Morgan, Bethel; Hywel Hughes, Bethel.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

Nos Fawrth, 21 Ionawr yn Festri Bethel cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni John Ogwen. Cafwyd straeon a hanesion difyr am gymeriadau a digwyddiadau fu'n ddylanwad arno cyn ac yn ystod ei yrfa.

Diolchwyd i John gan Mr Siencyn M. Griffith.

CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055



Plant Ysgol Sul Capel Cysegr wedi eu Gwasanaeth Nadolig.

CAPEL Y CYSEGR. Bu'r cyfnod yn arwain i fywyd at y Nadolig yn un hapus a phrysur. Cymeryd rhan gan oddeutu hanner cant o blant yr Ysgol Sul mewn cyflwyniad arbennig, wedi ei baratoi gan y gweinidog, Parchedig Dafydd Hughes, yn dwyn y teitl 'Awn at y Preseb'. Roedd pob dosbarth yn gyfrifol am gyflwyno rhannau o Stori'r Nadolig, a bu i'r plant lleiaf orymdeithio o amgylch y Capel yn portreadu Mair, Joseff, Angylion, Bugeiliaid a'r Doethion. Roedd

cyfle i'r gynulleidfa ymuno mewn nifer o garolau yn ystod y Cyflwyniad.

Yng ngwasanaeth y Sul canlynol derbyniwyd, o had yr Eglwys, bump o ferched ifainc yn gyflawn aelodau gan y Gweinidog, sef Ffion Owen, Lois Hughes, Gwen Rowlands, Emma Vaughan Jones a Ffion Williams. Croesawyd hefyd Mr Ifan Jones, St. Teilo (Paradwys, Ynys Môn gynt) yn aelod newydd. Yn y prynhawn mwynhawyd te parti

blasus wedi ei baratoi gan yr Athrawon i holl blant yr Ysgol Sul, a braf oedd cael ymweliad gan Siôn Corn.

Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i'r Oedfa Gymun Undebol dan ofal y Gweinidog ar fore'r Nadolig. Yn dilyn gair o groeso gan Lywydd y Mis, Goronwy Jones, cymeryd rhan gan William James, Jenkin Griffiths, Geraint Elis a Richard Ll. Jones o'r Cysegr, Beti Owen o Bethel (A) a Delyth Williams o Saron.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri. Ffôn: 870491

DYMUNA John Parry, 85 Maes Padarn Llanberis ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu hanrhegion a'u dymuniadau da ar achlysur ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ar 20 Rhagfyr.

EGLWYS ST. PADARN. Ar bawn Sul, 22 Rhagfyr, mwynhawyd cyflwyniad o Ddrama'r Geni gan blant yr eglwys gan gynulleidfa sylweddol. Cefnogwyd gwaith y plant gan gôr o ferched yr eglwys yn canu carolau addas yn ystod datblygiad y stori.

Yn dilyn y perfformiad arweiniwyd y gynulleidfa gan y Rheithor mewn gwasanaeth Cristingle pryd yr eglurodd arwyddocâd y gannwyll a'r oren addurnedig a ddosbarthwyd i bawb oedd yno. Roedd canu 'Dawel Nos' yng ngolau'r canhwylau mewn eglwys dywyll yn brofiad gwefreiddiol. Estynnwn ddiolch cynnes iawn i'r rhai a gymerodd ran ac i'w hyfforddwyr am bawn a roes ddechrau ardderchog i wasanaethau'r Ŵyl eleni.

DIOLCHIAU. Dymuna Mrs Heulwen Jones, Cyncoed, Stryd Warden ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

DYMUNA Bethan a Noel, 1 Maes Padarn ddiolch o galon i'w rhieni, perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion ac arian a galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur genedigaelth eu merch fach, Ffion Wyn.

DIOLCH. Dymuna Mrs Lowri Davies, 9 Maes Darlwyn ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a gafodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

DYMUNA Mrs Kathleen Williams, 1 Glanrafon Bungalows ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed mis Rhagfyr.

CANGEN ELUSENNOL. Drwy garedigrwydd Danny a Nerys Roberts, cynhaliwyd Boreau Coffi yn y Bistro yn ystod y flwyddyn 2002, er budd gwahanol elusennau.

Llwyddwyd i godi y swm o £908.50c ac y mae Delyth a Mattie Hughes, Trefnyddion, yn ddiolchgar tros ben am y gefnogaeth a gaed i hyrwyddo achosion teilwng.

CYNHELIR Y BÔRE COFFI nesaf ar ddydd Gwener, 7 Chwefror 2003 o 10.30 y bore hyd hanner dydd. Aiff yr elw i Gangen Crydcymalau Gwynedd.

DYMUNA Prudwen Pritchard ddiolch i bawb a'i chynorthwydd wedi iddi syrthio ar allt Ysgol Dolbadarn yn ystod mis Tachwedd. Diolch yn fawr eto.

LLANDDEINIOLEN

DIOLCH. Dymuna Aled a Llinos, Fachell, ddiolch o galon i deulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion, galwadau ffôn a dymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaelth Bedwyr

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffiths
Cynfi House. Ffôn: (870394)

CROESO CYNNES IAWN i Margaret Cynfi Griffiths i blith gohebwy Eco'r Wyddfa. Llauer o ddiolch iddi am ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn. (Gol.)

DIOLCH. Dymuna Ciss Rowlands, Corlan-y-bont ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am eu cefnogaeth a chdymdeimlad â hi. Diolch am y rhoddion a dderbyniodd er cof am Mervyn. Trosglwyddwyd yr arian i'r Meddyg Robin Parry, Meddygfa Llanberis. Diolch hefyd i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth ddiwrnod yr angladd. DYMUNA Windsor, Nancy a'r teulu, 10 Rhes Marian ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt drwy gardiau, ffôn ac ymweliadau yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a hen Nain ar 28 Rhagfyr yn 95 oed. Roedd yn byw yn Harwich ond gynt o 67 Pentre Helen. Diolch i bawb.

MERCHED Y WAWR. Nos Sul, 12 Ionawr cynhaliwyd Gwyl Blygain Merched y Wawr yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon. Cymerwyd rhan gan ddeuddeg o ganghennau a mawr oedd yr amrywiaeth o ddarlenniadau a chaneuon Plygain a gyflwynwyd i'r gynulleidfa. Y llywydd oedd Alwena Lewis, Caernarfon a gweddiwyd gan y Parch R. Donaldson, Caernarfon. YR YSGOL SUL UNEDIG.

Y Parti Nadolig. Cafodd plant yr Ysgol Sul barti Nadolig yn Ffestri Ebeneser bawn Gwener, 20 Rhagfyr. Bu Siôn Corn yn ymweld â hwy a chafodd pob plentyn anrheg o lyfr ac hefyd op ffrwythau a melysion. Mwynhaodd y plant eu hunain yn fawr.

Gwasanaeth Nadolig. Cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig fore Sul, 22 Rhagfyr yn Ebeneser. Cawsom wledd o adrodd a chanu gan y plant, tua deugain ohonynt yn gwneud eu rhan yn ardderchog. Buont yn cymryd rhan wedyn yn y Gwasanaeth Undebol yn Eglwys Llandinorwig. Y cyflwynydd oedd Mr Derek Jones, Llanberis a chafwyd anerchiad bwrpasol i blant ac oedolion gan y Parch John Pritchard.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau ar 13 Ionawr am 10 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Diddordeb mewn llefaru? Yn hoffi cymdeithasu?

Mae Parti Adrodd 'Lleisiau Llifon' yn chwilio am aelodau newydd.

Cyfarfod pob nos lau yn y Bontnewydd

Os oes gennych ddiddordeb cysyllter â'r ysgrifenyddes Nerys ar (01286) 675775

neu Geraint ar (01286) 830307

SNOWDONIA PARK WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tonnell
diggers bychain ac excavators 360° newydd
a llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300

neu (07775) 638620

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch
cadw'n gynnes ac yn glyd!

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263
PWYLLGOR NEUADD.

Cynhaliwyd Noson Wasael yn y Neuadd Gymuned, nos lau, 19 Rhagfyr. Cafwyd cyfle i fwynhau canu'r hen garolau ynghyd ag eitemau gan y plant a darlenniadau Nadoligaidd gan nifer o aelodau'r Pwyllgor. Mwynhawyd pwnsh poeth a mins pei. Diolchir i Dewi am gyfeilio i ni.

Enillwyr Clwb 100 Ionawr yw 1. Dafydd Evans, Sycharth; 2. Gwyn Jones, Gwynfi; 3. Pat Jones, 1 Tai Arthur.

Atgoffir chwi, aelodau ffyddlon y Clwb Cant, ei bod hi'n amser adnewyddu'r tâl aelodaeth. Os dymuna unrhyw un arall ymaelodi, cysyllter ag unrhyw un o aelodau'r Pwyllgor neu'r Trysorydd, Dafydd Williams, Meini Gleision, Brynrefail. Ffôn: 871754. Tâl 50c y mis neu £6 y flwyddyn.

LLONGYFERCHIR Dafydd Meredydd a Rhiannydd Wynne ar enedigaeth eu merch fach, Megan Wynne, wyres gyntaf i Gariys ac Arwel, Gae Eboni a chyfnither fach i Tomos a Cai. Pob bendith i chwi fal teulu.

PRIODAS HAPUS. Dymuniadau gorau a phob hapuswydd i Dyfed a Bethan ar achlysur eu priodas ar 27 Rhagfyr. Fe ddisgleiriodd yr haul ar y fodrwy ac fe gafwyd diwrnod i'w gofio.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â theulu Gae'r Ywaun a'r cysylltiadau oll ar farwolaeth mam, mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain annwyl, sef Mrs Ella Morris.

Ein cydymdeimlad llwyr af hefyd â Jean a Wil Jones a'r teulu oll ar farwolaeth sydyn mam Jean yn yr ysbyty ym Manceinion.

Yn yr un modd cydymdeimlir yn ddwfn iawn â Dave ac Ann Paterson a'r teulu oll ar farwolaeth mam Dave o'r Alban.

DIOLCHIADAU. Dymuna Dyfed a Bethan ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

DYMUNA Eurwen Griffith ac Ann, Cae'r Bythod ddatgan eu diolch i bawb am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Elwyn, mab a brawd annwyl. Diolchir hefyd am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag

at Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. DYMUNA Jean, Wil a Haydn ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

DIOLCH. Mawr yw'r diolch hefyd gan Dave ac Ann Paterson am y cardiau a gawsant yn eu colled o golli mam a nain hoffus.

TRIP LERPWL. Cafwyd trip i'w gofio unwaith yn rhagor a hynny yng ngofal Jean. Dymuna'r criw i gyd ddiolch iddi am y trefniadau gwyh. Cyflwynwyd rhodd iddi a dymuna Jean ddiolch o galon i bawb.

GWELLHAD. Deallir fod nifer o'r pentref wedi cael triniaethau yn yr ysbytai yn ddiweddar a dymunir adferiad iechyd i Mrs Renee Morris, Nansi Jones a Mrs Evie Jones. Da deall fod Aled Green yn gwella wedi'i driniaeth yntau yn Lerpwl. Anfonir ein cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref. YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Diolchir i'r plant i gyd am y Gwasanaeth Nadolig sef 'a-bost:lesu@Bethlehem.lel' Er yr holl ddyfeisiadau anhygoel o anfon negeseuon heddiw, yr un yw'r Neges o hyd - sef parhau i ledaenu dysgeidiaeth Crist.

Fe ymwelodd Siôn Corn hefyd a derbyniodd pob aelod anrheg ganddo. Diolchir i Anti Bronwen am ofalu fod mins pei cartref i bawb oedd yn yr oedfa. Gwnaed casgliad sylweddol a chyflwynir £70 tuag at Gronfa Tŷ Gobaith. Diolchir i bawb am gefnogi'r aelodau ac am eu hanogaeth.

Rydym oll yn falch o gael Mr Evie Jones yn ôl atom ar ôl ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae'n un da am gadw trefn ac mae'r plant i gyd yn meddwl y byd ohono.

URDD, ADRAN BENTREF. Cychwynwyd y tymor hwn gyda'r aelodau yn sôn am eu hoff anrheg Nadolig.

Ar 15 Ionawr mwynhawyd Cwis yng ngofal Geraint George. Hanes Santes Dwynwen a gafwyd ar 22 Ionawr gan Marina Jones.

Ar 29 Ionawr bydd y plismon, Philip Griffiths, a'i gi yn dod i weld yr aelodau.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

LLONGYFARCHIADAU. Yr ydym, fel ardal, yn anfon ein llongyfarchiadau i Sally a John Brennan, Afallon ar ddathlu ohonynt eu Priodas Ddeiamwnt cyn y Nadolig. Gobeithio y cânt lawer blwyddyn eto hefo'i gilydd. Pob bendith ac iechyd i'r ddau i'r dyfodol.

CLWB ORWIG. Mwynhaodd y clwb uchod ginio Nadolig ardderchog yng Nghanolfan Blue Peris ar 17 Rhagfyr. Diolchodd y Llywydd, John Cantrell, i swyddogion y gegin, ac yn arbennig i Jan y gogyddes, ar ran yr aelodau, a chyflwynwyd rhoddion i ddatgan gwerthfawrogiad, nid yn unig am y cinio blasus ond hefyd am eu cymorth a'u croeso drwy gydol y flwyddyn. Da oedd cael cwmni Oliver a Karen, rheolwyr y Ganolfan, yn y cinio hefyd.

Cyflwynwyd blodau i Betty Bower a Nellie Wyn Jones fel gwerthfawrogiad o'u gwaith dros y clwb, ac i Anne Lo a Sally Brennan ar achlysur eu penblwyddi. Diolchwyd i John a Sally Brennan a'u merch, Roslynne, a Joan a Dennis Glass am eu cyfraniadau hael i'r clwb.

Da oedd cael croesawu'n ôl Sue Michael a Pat Ingle a Betty Lloyd Roberts. Diddanwyd pawb gan ddatganiad cerddorol a bywiog gan John a Rose Cantrell a'r

aelodau yn cael cyfle i ymuno yn y caneuon a'r Carolau.

Bu'r prynhawn yn ddiweddglo teilwng i flwyddyn lwyddiannus a hapus yn hanes y clwb.

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs John Brennan, Afallon, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, blodau, galwadau ffôn, anrhegion a'r rhoddion a gawsant ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt. Diolch yn fawr am yr holl garedigrwydd.

YMADAEL. Colled arall i'r ardal oedd i deulu Tŷ Capel MC symud o'r ardal i fyw. Mae Geraint, Eira a'r plant, sef Gwenno, Siôn Ifan ac Elis Arddu wedi symud i fyw ar ochr y Wyddfa, tipyn o fentr. Mae Geraint wedi gweithio'n galed ar y cartref newydd. Does dim ond gobeithio y byddant fel teulu yn hapus yno ac na fydd yr rhy unig ac oer iddynt. Pob lwc a bendith ichwi fel teulu yn y cartref newydd.

DAMWAIN. Drwg gennym ddeall fod Mrs Hannah Mary Roberts, Tŷ'r Ysgol wedi cael damwain hefo'gar a'i bod wedi torri asgwrn yn ei brest. Rwyf yn sicr ein bod yn dymuno gwellhad llwyr a buan iddi ac y cawn ei gweld yn dreifio yn lled fuan eto. Brysia wella, Hannah.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

website: www.a-v-w.co.uk

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car.

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



HELI
MOTOR OILS

Car new Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad



BOSCH

STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Gwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff



NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Fyrrnon
Ffôn: (01286) 871620

DRAMA A CHAROLAU YN EGLWYS SANT PERIS: Adroddiad i ddilyn! Fory Gobeithio


DIOLCH: Dymuna Ken, Beudy Mawr, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i deulu am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 70. Diolch yn arbennig i Mair a'r plant am drefnu parti bythgofiadwy yn Nhy'n Llan ac i Anne, Jim a staff y dafarn am y croeso a'r wledd fendigedig. Diolch hefyd i bawb a gyfranodd at elusen Ysbyty Alderhey - llwyddwyd i godi swm o £84.32.

PEN-BLWYDD HAPUS i Lynne Roberts, Ty'n Goed a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 yn ddiweddari.

GLWB NOS FERCHER: O nos Fercher y 29fed o Ionawr fe fydd cyfle i bawb sydd â diddordeb mewn crefftiau o bob math gyfarfod yn Nhy'n Llan am 7.30 o'r gloch i greu campweithiau ac i roi'r byd yn ei le! Croeso cynnes i bawb! Am fwy o fanylion ffoniwch Gwenda Roberts ar 872177



CYNGERDD NADOLIG: Yn dilyn llwyddiant Ffair Nant a'r Wyl Flodau mis Medi diwethaf, penderfynwyd parhau â'r brwdfrydedd trwy gynnal noson o garolau a Drama'r Nadolig yn eglwys Sant Peris. Braff oedd gweld, unwaith eto, aelodau'r pentref (o'r ifanc i'r 'ddim mor ifanc!') yn cydweithio'n ddiwyd a dirwgnach yn ystod yr wythnosau o ymarferion. Bu'r noson yn llwyddiannus iawn - roedd yr eglwys dan ei sang a chadeiriau'n brin iawn! Addurnwyd yr eglwys yn hynod gelfydd gan y merched a pherfformiadau'r cast yn haeddu ambell i Oscar! I glori'r noson, cynigiwyd sherri a mins peis yn Nhy'n Llan i ychwanegu at wres y croeso (a'r tân coed!). Diolch i BAWB a gyfrannodd at y noson mewn unrhyw ffordd.



**Ar werth
CAMERA
VIDEO**

Sony Handycam

£210 ono

Newydd sbon - Nadolig 2001

Fel Newydd

Pris gwreiddiol £400

Cysylltwch â Islwyn (01286) 870735



Ar Ben Arall y Lein

Dechrau blwyddyn a thymor arall, beth sydd o'n blaen tybed, mae un peth yn sicr mae cryn edrych ymlaen yn enwedig ar ôl wythnos olaf Hydref 02. O'r adeg yma hyd at ganol Ionawr eleni mae'r Seiont wedi cael ei bendithio gyda'r redfa orau a mwyaf o eogiaid a welais ers dros 15 mlynedd. A dweud y gwir nid wyf erioed, heblaw yn Canada a Alaska, yn cofio imi weld cyn gymaint o eogiaid mewn un pwl. Dydd Sadwrn cyn y Nadolig roedd 27 o bysgod braf ym mhwll William Owen, Pontrug, a gyda cymorth hael swyddogion adran Bysgodfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd, fe gafwyd dros 12,000 o wyau o bedair iâr. Mae rhain 'nawr yn neorfa'r Asiantaeth yn Nolgellau, gyda 18,000 o wyau sewin. Daw'r rhain yn ôl i Ddeorfa Crawia tua ganol Mai, wedyn, os aiff popeth yn iawn, fe fydd yr eogiaid bach yn cael eu gollwng yn yr Hwch, Peris a'r Caledffrwd, a'r sewin yn cael eu gollwng fel rhan o gynllun gleisiaid yn Ffos y Dail. Hon yw'r afon fechan sy'n tarddu is law Eglwys Llanddeiniolen. Mae pethau'n dod yn eu blaen yn ardderchog.

'Sgw'n i faint o ddarlennwyr sydd wedi bod o amgylch o fro yn ystod gwylia'r Nadolig, ac wedi sylwi a'r y gwaith enfawr sydd wedi ei gwblhau drwy'r Cynllun Adnewyddu Cynefinoedd, yn ogystal â gwaith drwy nawdd Cist Gwynedd. Mae'r gwaith yma yn lledaenu drwy Ddyffrynocdd Pcris a Nantlle, y lleoliadau presenol ble mae'r gwaith yn mynd ymlaen yw Nant Peris, Talysarn, Nantlle a Drws y Coed. Rydym yn gobeithio y bydd gwaith y dylunio yn dechrau yn y misoedd nesaf yn Nyffryn Gwyrfa.

Hefyd beth am y gwaith i

greu'r ffordd newydd a chyfleusterau parcio ar lan Llyn Nantlle. Mae'r gwaith yma wedi ei gwblhau diolch i'r ymgymwrwr, sef Bryn Hughes, Nantlle am waith arbennig. Gobeithio y bydd y jeti wedi ei gosod yma yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r tywydd yn dal y rhan yma o'r gwaith yn ôl.

Aros eto ar lannau'r Llyfni, mae cynigion wedi eu hanfon am y gwaith o adnewyddu Melin y Cim, Pontllyfni. Bydd y gwaith yma yn dechrau at ddiwedd Chwefror eleni. Cynllun Cwlwm Gwledig drwy Gyngor Gwynedd a chronfa Amcan 1 fydd yn ariannu'r gwaith. Gobeithiaf adrodd ymhellach ar hyn y mis nesaf.

Yn ogystal â'r gwaith uchod, fel y gwyddoch mac'n debyg, mae'r clwb wedi derbyn hawl cynllunio i adeiladu Canolfan at ddefnydd pysgotwyr ar ran o'r maes parcio ger y ddeorfa yn Crawia. Cyn dechrau ar y cynllun yma bydd yn rhaid arwyddo cytundebau gyda'r cyngor, mae'r rhan yma o'r gwaith nawr mewn llaw.

I'r rhai sydd eisieu gwerthu unrhyw item o offer pysgota, hen neu newydd, bydd y gymdeithas unwaith eto yn cynnal *Arwerthiant o Offer Pysgota* yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis am 7.00 nos Wener 14 Mawrth 2003. Mynediad am ddim ond bydd 10% o'r gwerthiant yn daladwy i'r clwb. Bydd arwerthwyr profiadol iawn gyda gofal am y noson. Os ydych eisieu gwerthu cysylltwch â Dr Robin Parry neu Bert Parry, Llanberis; Gwynfor neu Gwynndaf Jones neu minnau ym Methel; John Roberts neu Dafydd Owen, Y Groeslon; Harry W. Owen, neu W. Bryn Williams, Talysarn; neu Alwyn Griffiths, Penygroes. Bydd hon yn noson arbenig.

Huw Price Hughes.

Atodiad Cwm Y Glo

(Parhad o dudalen 9)

YSGOL CWM-Y-GLO. Carem yn gyntaf ddiolch i bawb am y gefnogaeth arferol i'n gweithgareddau ddiwedd tymor y Nadolig.

Braf yw cael croesawu Jason a anwyd ddiwedd y flwyddyn. Mae'n frawd bach i Lilac, Dosbarth Derbyn. Gobeithio y byddant fel teulu yn hapus iawn yn eu cartref newydd yn 1 Dolafon.

Diolch yn fawr i'r pump bachgen fu'n cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth pêl-droed 5-bob-ochr yr Urdd ym Mangor. Llwyddodd Dewi Wynn, Siôn Arfon, Dewi Rhys, Gethin a David i ennill un gêm, dod yn gyfartal mewn un arall a cholli dwy. Diolch yn fawr i Mrs Jennifer Roberts am ofalu amdanynt.

Enillwyr Clwb yr ysgol am fis Tachwedd oedd Mrs Esme Jones, Dolafon; Mrs Jean Hughes, Cwm-y-glo a Dr Jean Lyon, y Felinheli. Aeth gwobrau mis Rhagfyr i Hannah Wilson, Dinorwig; Mrs Jean Roberts, Bethel a Mr Wil Morris, Brynrefail.

Gynhaliwyd dau gyfarfod o gangen yr Urdd y mis hwn. Cawsom lawer o hwyl yn yr Yrfa Chwilod ac yna buom yn dathlu dydd Santes Dwynwen gyda chystadlaethau yn ymwneud â'r stori.

Bydd gennym noson o Fingo yn yr ysgol ar nos Fercher, 5 Mawrth a drefnir gan Gymdeithas Rieni/Athrawon gweithgar yr ysgol. Byddwn yn ddiolchgar o unrhyw wobrau tuag at y gemau neu'r raffl. Diolch yn fawr.

Rydym yn bwriadu cefnogi ymgyrch y *Daily Post* eto eleni drwy gynnal cyngerdd Gŵyl Dewi syml yn yr ysgol am 1.30 o'r gloch, bawn Gwener, 28 Chwefror. Bydd paned a chacen ar gael yn y pris mynediad o £1. Bydd yr elw yn mynd at yr achos teilwng iawn Apêl Tŷ Gobaith.

Erbyn hyn, gwneir defnydd helaeth o neuadd yr ysgol gyda'r nosau. Cynhelir gwersi Cymraeg bob nos Fawrth am 7 o'r gloch. Mae dau ddosbarth Pilates ar nos Iau - y cyntaf am 6 o'r gloch a'r llall am 7.30. Mae Clwb y Graig yn dal i drefnu Gyrfa Chwist bob yn ail nos Fercher am 7 o'r gloch. Bydd Sefydliad y Merched Brynrefail, yr Eglwys a'r Cyngor Cymuned yn gwneud defnydd achlysurol o'r Ganolfan hefyd. Os am gael mwy o fanylion, mae croeso i chwi gysylltu â'r ysgol.

GWGLAD O GÂN

Theatr Gogledd Cymru, Llandudno

Nos Iau, Mawrth
27ain am 7.30pm

Tocynnau:
(£8.50) 01492 872000

Mae Recordiau SAIN yn cyflwyno noson fythgofiadwy arall o gerddoriaeth gorau'r iaith Gymraeg yn **Theatr Gogledd Cymru, Llandudno, nos Iau, Mawrth 27ain 2003.**

Bydd goreuon y byd canu gwlad, enillydd Cân i Gymru 2002 ac un o leisiau hyfrytaf Maldwyn yn uno i gyflwyno cyngerdd arbennig iawn fydd yn sicr o lenwi pob sedd yn y theatr.

Dyma fydd y seithfed cyngerdd i SAIN ei gyflwyno yno, ac fel yr awgryma'r teitl, *Gwlad o Gân*, bydd yr amrywiaeth canu yn sicr o apelio at bob un. Canu gwlad ar ei orau gan y gorau - John ac Alun, Iona ac Andy (y ddwy ddeuawd wedi bod yno ers y dechrau) a Dylan a Neil (maent yn dychwelyd i lwyfan Gwlad o Gân wedi 4 blynedd). Yn ychwanegol at y rhain, bydd enillwyr Cân i Gymru 2002, sef Elin Fflur a'r Moniars. Ceir hefyd flas o fwynder Maldwyn yn llais unigryw Linda Healy a'r Band.

Eifion Jones, "Jonsi", fydd yn llywio'r noson eleni

Albys newydd gan yr artistiaid:

Rhyddhaodd nifer o'r perfformwyr Gryno-ddisgiau dros gyfnod y Nadolig. Yr albym a werthodd fwyaf i SAIN yn ystod 2002 oedd *'Tiroedd Graslun'* gan John ac Alun - eu wythfed albym! Hefyd cafwyd albym gyntaf gan Elin Fflur a'r Moniars, yn cynnwys y gân fuddugol yng nghystadleuaeth *Cân i Gymru* ac yna'r *Wyl Ban Geltiadd* sef *'Harbwr Diogel'*. Bydd Linda Healy, gynt o'r grŵp Plethyn yn cyhoeddi ei CD unigol hithau erbyn y cyngerdd... O ran diddordeb, bydd Sain yn cyhoeddi **Goreuon Plethyn** erbyn eisteddfod Meifod hefyd.

Archebwch eich tocyn **RWAN**, neu byddwch yn difaru!

Mwy o luniau Cyngerdd Nadolig Nant Peris



Os am HYSBYSEBU
– ffoniwch:
JOHN ROBERTS
ar (01286) 675605

Am lwythi pell ac agos, cysylltwch â'r
symudwr smart... Y cludwr clên...

TM JONES

Cil y Coed, Dwyran, Ynys Môn, LL61 6YD

Llwythi mawr a bach • Clirio Tai • Domestig a
Masnachol • Cyngor Cyfeillgar • Prisiau Cystadleuol

Ffôn: (01248) 430 126 • Symudol (07788) 703 659

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob
math o logi preifat – nosweithiau
allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau
rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis cang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



GARETH GRIFFITH
A'I GWMNI

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: 67 68 69 Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggco@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phroffiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Thenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Pryd i Bawb
Buffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes


CERID MACKINNON

Plas Tŷion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



CROESAIR CHWEFROR



Pedair o 41 ar draws (gwyliwch y treigladd!) mwyaf 6 i lawr ydi'r atebion sydd heb gliwiau iddynt.

Ar Draws:

- 1 Defnyddir hwn gyda dant y llew i wneud diod â blas licris arno. (8)
- 5 Un sy'n astudio'r berthynas rhwng creaduriaid neu blanhigion a'u hamgylchedd (8)
- 11 Y rheol ym mhentref Nebo yw..... (5)
- 12 Torwyr coed (7)
- 13 Mae'r esgyrn sy'n amgylchynu'r ddwyfron yn gymorth i gryfhau'r llais!! (3)
- 14 Genau goeg (6)
- 15 Yn abl yng ngolwg ei wraig a llu o gariadon eraill!!!! (6)
- 17 Y gwres sy'n codi o'r brotest? (3)
- 19 Cymryd diddordeb mewn rhywboth (8)
- 23 Y weithred o fynd o un lle i'r llall (8)
- 26 O'r un meddwl (8)
- 27 Y fi ar ôl dechrau'r wythnos yn y Nant yn cynhyrchu egni (8)
- 28 Yn llythrennol - yn ddrud (8)
- 32 Brwydr Pencader? (3)
- 33 Un rhan o dair (6)
- 35 Colled o ganlyniad i'r elwyf o Glwyd i fro Dinefwr! (6)
- 38 Y cyntaf, a'r mwyaf gwerthfawr o'r anrhegion (3)
- 39 A llygaid du (7)
- 40 Ystafell dan y ddacar (5)

I Lawr:

- 1 Defnydd meddal i wneud dillad (5)
- 3 A'i mŵn dda sy'n gwneud dyn yn dyn? (7)
- 4 Gweryl (4)
- 7 Ffordd gul (3)
- 8 Un sy'n gofalu am geffylau (9)

- 9 Syr ac Aelod Seneddol yn cymryd rhan mewn rhedegfeydd? (5)
- 10 Tlysau gwerthfawr (5)
- 16 Ffin neu derfyn (5)
- 18 Tair ac un arall, biti drostynt!! (6)
- 19 Un yn siarad ag ef ei hun (5)
- 22 Yn hawdd ei weld (5)
- 24 Chwyddwydrau i weld mwyar duon wedi eu chwalu'n fân (9)
- 25 Cogen a ddefnyddir i gnoi? (5)
- 29 Darn tenau o garreg neu glai wedi ei grasu (7)
- 30 Lliw cymysg (7)
- 31 Brodwaith (5)
- 32 Calon y ci sy'n chwarae o gwmpas yr ardd flêr (5)
- 34 Calon eto, calon y gymdeithas grefyddol (5)
- 36 Heb lwyddo yn y brifysgol? (2-3)
- 37 Hel llus (4)
- 39 Y daioni a geir yn y lle sanctaidd? (3)

Derbyniais atebion i groesair mis Rhagfyr gan Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Yera Griffiths, Llanberis; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Olwen Jones, Bcthel; H. O. Hughes, Pwllheli; Ceinwen Williams, Bethel; Mair Evans, Caernarfon; N. Hughes, Cwm Y Glo; Ceridwen Williams, Llanrug; Nansi Davies, Rhuthun; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Pencaerau; Olwen Owen, Llanberis; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Enid Jones, Talysarn; Nan Owen, Llanberis; Eluned Jones, Trefor; M. P. Jones, Clynnog; Megan Morris, Dinorwig; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Pat

BRETHYN CARTREF

Dal i ffrwtian mae'r ddadl am y defnydd - neu'r diffyg defnydd - o chwaraewyr lleol yn nhimau ein Cynghair Pel-droed Genedlaethol. Y mae'r ddadl yn fwy tanbaid pan nad oes llwyddiant ar y maes, a'r ddadl yn cael ei chyplysu â chost y chwaraewyr.

Nid dadl na sefyllfa newydd yw hon. Yn y 60'au roedd y 'Bangor lads' yn britho nifer o dimau cynghreiriau Arfon a Môn. Yn hen 'Welsh League' y gogledd, byddai criw Wrecsam a glannau Mersi yn symud fel haid o dymor i dymor - o Flaenau i Fethesda i Ddyffryn Nantlle. Yr hyn sy'n ffaith yw fod cynnwys y bechgyn lleol yn adfywio cefnogaeth. A fu y fath gyfnod na theyrnasiad Orig a'i dim yn y Vale?

Yn ddiweddar gwelais gemau rhwng Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin. Dwy gêm dda, gystadleuol yn brawf diamheuol fod safon y gynghrair yn gwella o dymor i dymor. Gobeithio y bydd arian o goffrau cyfnod llwyddianus ein tîm cenedlaethol yn bwydo ei ffordd i lawr at ein timau, yn enwedig i wella safon y meysydd.

Yn y ddwy gêm cafwyd torfeydd o 500+. Braf yw cyfnodi mae cefnogwyr brwd oedd y mwyafrif. Oes, mae gan ein timau lleol a'n cynghrair ei chefnogwyr. Roedd criw da wedi teithio o Fangor i Aber, a chriw cefnogol wedi ymlwybro o Gaerfyrddin bell i ffordd Farrar. Yr oedd elfen Gymreig y gefnogaeth yn y ddwy gêm hefyd yn ffactor amlwg.

Trueni nad oes papur cenedlaethol Gymreig - nid rhanbarthol, blwyfol fel y

Western Mail neu'r Daily Post - i gefnogi'r datblygiad. Y gymhariaeth yw papurau cynhenid yr Alban ac Iwerddon sy'n rhoi prif sylw i'w cynghreiriau cynhenid. Nid yw eu gwerthiant yn dirywio oherwydd y polisi yma. Y mae'r gefnogaeth gyfryngol i'r timau cynhenid yn arwain at drafodaeth ac ymwybyddiaeth. I'r mwyafrif ohonom fesul llinell, nid fesul colofn neu dudalen y cawn ddilyn y campau Cymreig. Caiff sefyllfa druenus ein rygbi lawer mwy o sylw gan y wasg Lundeinig na llwyddianau ein tîm pêl-droed. Y mae gwae yn werthwr da!

Caiff patrymau 'gamblo' chwaraewyr fwy o sylw yn 'ein' papurau ac felly yn 'ein' meddyliau na hynt a helynt ein timau.


Yn fy marn i mae cynnwys y chwaraewyr lleol yn denu cefnogwyr. Y mae'r 'Jiws factor' yn sicr wedi sbarduno tîm a chefnogwyr Bangor. Braf oedd gwylio Marc, Eifion a Gavin Allen - tri o hogia bro'r Eco yn chwarae yn y gêm yn Aberystwyth.

Mae arwyddion cryf y bydd Porthmadog yn esgyn i'r brif adran y tymor nesaf.

Gobeithio y bydd Caernarfon yn aros i fyny. Bangor, Caernarfon a Phorthmadog o fewn tafliaid carreg i'w gilydd - dyna fuasai prawf o 'gefnogaeth' leol i'n brethyn cartref.

Gyda llaw, braf clywed mae'r amryddawn Gwyn Hughes Jones o Fôn fydd yn ledio'r anthem cyn y gêm yn erbyn Azerbaijan.

A glywn ni Dafydd Iwan yn ledio 'côr y werin' rhyw ddydd tybed?



Owen, Caerfyrddin; Alvona Jones, Prestatyn; Moreen Lennon, Llanberis ac enillydd y mis, sef Jenny Williams, 1 Sea View, Tan y Graig, Clynnog Fawr.

Llongyfarchiada' a £5 i chi.

Ar ôl i chi gwblhau croesair Chwefror, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 17 Chwefror.

RHODDION

£20: Elin ac Arwyn, Llidiart Wen, Waunfawr.

£10: Mr a Mrs K Griffiths, Nant Peris; Mrs Heulwen Jones, Cyncod, Stryd Warden, Llanberis; Eurwen ac Ann Griffith, Cac'r Bythod, Racca.

£5: Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Clwb Bro Bcthel; Evan a Nerys, Wern Las, Bethel; John Parry, 85 Maes Padarn, Llanberis; Bethan a Noel, 1 Maes Padarn, Llanberis; Mrs Kathleen Williams, 1 Glanrafon Bungalows, Llanberis; Mrs Lowri Davies, 9 Maes Derwyn, Llanberis; Ciss Rowlands, Gorlan-y-bont, Deiniolen; Windsor a Nancy Williams, 10 Rhes Marian, Deiniolen; Neil a Michelle, Bon Marche, Llanberis.

£3: Aled a Llinos, Fachell, Llanddeiniolen; Mrs Bet Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

CHWARAEON

Rygbi ym Mro Eco'r Wyddfa

Clive James – un a fu yn Ysgrifennydd Clwb Rygbi Caernarfon am 10 mlynedd, yn Gadeirydd am 4 blynedd ac yn Ymddiriedolwr y Clwb heddiw.

Fel un a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a sefydlodd Glwb Rygbi Caernarfon ar 6 Tachwedd 1973 (bron i 30 mlynedd yn ôl!) gwn fod tair carfan ddaearyddol i gorff y Clwb erioed. Wrth gwrs, Clwb y Cofis yw'r clwb i lawer, ond mae trigolion Bro Llew a Bro Eco'r Wyddfa wedi cyfrannu cymaint â bro Papur Dre.

Y tu mewn i'r drefn driphlyg hon, gall bro Eco'r Wyddfa ymffrostio ei bod wedi cyfrannu cystal â'r ddwy fro arall. Mae'n wir mai dim ond un o fro'r Eco oedd yn y cyfarfod sefydlu ac yn aelod o'r pwyllgor cyntaf – myfi!

Wrth ddarllen cnwau'r aelodau sylfaenol yn 1973 gwelir Terry Hughes (Llanberis); Gwyndaf Birkett (Bethel); C. M. Jones (Waunfawr); Gareth Hughes (Bethel); Gareth Wyn Williams (Dirprwy Ysgol Waunfawr erbyn hyn!); John Eryl Thomas (Bethel); Arthur Davies (Cacathro) ac Eryl Davies (Bethel).

Wrth edrych ar fwrdd anrhydeddau'r Clwb ar Y Morfa gwelir mai'r Cadeirydd rhwng 1987 a 1996 oedd S. Idwal Williams, Llanrug a rhwng 1993 a 1996 – yr awdur.

Yn rhestr Capteiniaid y Clwb gwelir Eifion Harding, Penisarwaun (1987); J. R. Williams (1990-92 a 1999); Ieuan G. Jones, Bethel (1993); Myfyr Jones, Bethel (1997-98). Y tu ôl i'r llenni bu Gareth Williams, Llanrug yn Ysgrifennydd am gyfnod. Fo yw Is-gadeirydd presennol y Clwb ac mae'n barod i gamu ymlaen i'r brig.

Wrth edrych ar luniau'r timau ar wal y Clwb, gwelir wynebâu cyfarwydd o'r gorffennol: Gareth Michael (Bethel); y diweddar Dennis Williams (Llanrug); Idwal Williams (Llanrug); Geraint Humphreys (Bethel); Eryl Davies (Llanrug a Brynrefail); Eifion Harding (Penisarwaun); Ieuan Jones (Bethel); Myfyr Jones (Bethel) a Huw Williams

(Bethel).

Beth mae'r Clwb wedi ei gyfrannu at rygbi yng Ngwynedd, Gogledd Cymru a Chymru?

Ar ôl sefydlu, daeth Ail Dim, ac wedyn Trydydd Tim. Uchafbwynt y cyfnod cychwynnol oedd rownd derfynol Cwpan Gogledd Cymru yn erbyn Wrecsam (tîm mwyaf y gogledd yr adeg hynny) ym Mae Colwyn ym 1982. Wedyn bu cyfnod o drwmgwsg tan sefydlu adrannau Iau a Ieuencid o ganol 1980 ymlaen.

Wrth geisio datblygu rygbi yn yr Ysgolion Uwchradd roedd yn bleser gennyf gyflwyno crysau rygbi i Ysgol Brynrefail, ar ôl idynt ail-ddechrau chwarae rygbi ar ôl penodi athrawon newydd.

Hefyd, mae Ysgolion Cynradd y fro wedi chwarae rhan fawr yn natblygiad sgiliau'r plant trwy gyflwyno rygbi fel rhan o'u gweithgarwch.

Dalgyrch Ysgol Brynrefail oedd y cyntaf yng Ngwynedd i sefydlu Gŵyl Rygbi Cynradd ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon ym mis Hydref y llynedd. Diolch i'r athrawon a Mrs Iona Ceiriog, Ysgol Dolbadarn am drefnu. Hefyd mae'r Ysgolion Cynradd wdi cefnogi'r Clwb Rygbi hefo Rygbi'r Ddraig, gyda diolchiadau mawr i Robin Williams, Prifathro Ysgol Cynradd Llanrug a Gareth Wyn Williams, dirprwy-Brifathro Ysgol y Waunfawr.

Hefyd eleni mae rhai o bobl ifanc Bro'r Eco wedi eu derbyn i Academi Rygbi Arfon – oeddrannau o dan 16 ac o dan 14 – sy'n cael ei chynnal yng Nghaernarfon.

Ar hyn o bryd mae'r ddadl ynglŷn â threfnu rygbi Cymru o dan lefel cenedlaethol yn parhau. Talcithiau (mac'n debyg heb gynnwys un talaith i'r gogledd o Storey Arms – 'Watford Gap' Cymru!) neu glybiau mawr? Un peth sy'n sicr yw y bydd plant a phobl ifanc, oedolion, rhieni ac athrawon Bro'r Eco yn parhau i ddatblygu chwaraewyr rygbi i'r dyfodol – ar gyfer Bro'r Eco, Caernarfon, Gogledd Cymru ac, un diwrnod rwy'n sicr, Cymru!

Apêl a Gwybodaeth

Yn ymwneud a'r gêm yn erbyn Azerbaijan ar Fawrth 29, mae gen i fws yn mynd i'r gêm ac yn ôl ar yr un diwrnod. Yn anffodus nid oes gennyf docynnau i'r gêm ar ôl, ond mae lle i 6 teithiwr.

Pris y bws yw £10.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch. Y cyntaf i'r felin... (670115), a'r Apêl?

A oes gan rhywun DDAU DOCYN sbar –PLIS!



Gavin ac Ifan gyda'r tlysau 'cyntaf' pwysig.

Ar Wib

Mae rhifynau cynnar yr Eco yn cronicle y diddordeb mawr oedd mewn ralio ceir. Roedd sawl 'mecanic' yn y fro wrth eu bodd yn trin ac addasu ceir ar gyfer y gamp.

Y mae dau o fro'r Eco newydd ennill gwobr 'dosbarth' a hynny yn eu hail brif rali yn unig. Y mae enw'r gyrrwr yn hysbys i ni yn lleol am ddawn arall. Gyrru'r bêl yn rheolaidd i'r rhwyd fel blaenwr clwb pêl-droed Bethel mae Gavin Edwards o Ddeiniolen.

Trydanwr gyda chwmni Dragon Electrical ydi Gavin, ond wrth ci fodd yn 'potsian' hefo ceir. Cyn mentro i ruthr y ralio ffyrdd, byddai Gavin a'i dad yn mentro ambell ras ar gylch Tŷ Croes, Ynys Môn.

Y 'nafigetor' yw Ifan Rowlands o Fethel. Mac Ifan yn fyfyrwr ail flwyddyn yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Bu'r ddau yn gweithio i addasu'r modur, sef Ford Fiesta XR2.

Daeth y llwyddiant pwysig

cyntaf yn rali Goffa J. J. Brown. Roedd y cwrs troellog liw nos yn 130 milltir o hyd, ac yn sgrialu o Benygroes, drwy Ben Llyn, yna yn ôl i gyffiniau Bangor a Chaernarfon cyn gorffen – i'r rhai ffodus – yn y Mount Pleasant, Dinas. Mae'r rali hon yn un o gyfres a drefnir gan Glwb Moduro Môn ac Arfon.

Bwriad y ddau yn awr yw cystadlu mor aml a phosibl i fagu profiad a pherfformio y ddawn o gydweithio dan bwysau, sy'n elfen mor hanfodol yn y gamp gyflym hon. Y maent yn edrych ymlaen i rali Llŷn ym mis Mawrth.

Ar gyfer rali Dwyngwen o gwmpas Môn, mae'r partneriaid am wahanu, sy'n siwr o greu elfen o gystadlaethau. Yn y rali hon, bydd Ifan yn nafigetio i Gareth, tad Gavin mewn Cosworth. Yn sedd y nafigetor fydd Gavin bryd hynny yn arwain Siôn, ei ffrind. Edrychwn ymlaen i ddilyn eu 'gyrfa' ac unrhyw un arall o'r ardal sy'n dilyn neu gymryd rhan yn y gamp gyffrous hon.

Nofio a Rhedeg



Gerallt, Aaron, Aled a Daniel gyda James, y mascot, yn y blaen.

Gwefr i unrhyw golofnydd chwaraeon yw olrhain hanes datblygiad campwr ieuanc drwy ôl-rifynnau'r papur. Mac Eifion Williams, y nofiwr dawnus o Lanrug yn mynd o nerth i nerth ac edrychwn ymlaen rhyw ddydd i'w wld yn lifrau Cymru yng ngemau'r Gymanwlad.

Braf hefyd oedd gweld fod Alun Vaughan, y rhedwr dawnus o Lanberis, yn cael cryn lwyddiant yn ddiweddar. Wrth gynhyrchioli Rhedwyr Eryri, mae Alun yn cael cryn lwyddiant yn y gyfres o rasus sy'n ffurfio pencampwriaeth y Gogledd. Gyda dwy fuddugoliaeth yn y rasus cyntaf – mewn amseroedd safonol iawn – mae'n ffefryn i gipio'r tlws unigol.

Y mae nifer o'n ieuencid yn ffodus o'r profiadau sy'n deillio o'r llw cystadlaethau a drefnir i'r gwahanol oeddrannau mewn sawl camp erbyn hyn. Un o'r trefnwyr hyn yw yr Urdd.

Draw ym Mhenlan, Abertawe y cynhaliwyd Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd i'r oeddrannau cynradd eleni. Y mae'r ystadegau yn dangos fod y safon yn gwella o flwyddyn i flwyddyn, fel mae techneg hyfforddi yn mynd yn fwy arbenigol.

Pedwar pysgodyn ifanc o Fethel oedd yn cynhyrchioli rhanbarth Eryri yn y ras gyfnewid dull rhydd. Bu sawl taith i lawr i'r pwll yng Nghaernarfon i ymarfer am y diwrnod mawr. Y pedwar oedd Gerallt ac Aled Jones, Aaron Gwyn a Daniel Bell.

Ni ddaeth medal i'w rhan, ond llwyddodd y pedwar i wella eu 'hamser gorau' o sawl ciliad. Mac mwy nag un ffordd o fesur llwyddiant ym myd y campau. Rwy'n siwr fod cryn edrych ymlaen am y flwyddyn nesaf yn barod.

Rodd Aled Hughes, hefyd o Ysgol Bethel, yn cynhyrchioli Eryri yn y ras ar y cefn i flynyddoedd 5 a 6.